



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Dadansoddi effaith diwygiadau Iles Llywodraeth y DU yng Nghymru

Effaith sancsiynau budd-daliadau



Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru

Effaith sancsiynau budd-daliadau

- Cynulleidfa** Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn yn bennaf ar gyfer Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles a swyddogion polisi a swyddogion dadansoddi perthnasol.
- Trosolwg** Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i rhaglen ymchwil i asesu effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Tîm Gweithrediadau
Yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6160
e-bost: welfarereform@wales.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru www.cymru.gov.uk/pobl-a-chymunedau



Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored 3.0, oni nodir yn wahanol.

www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licenceversion/3/

Cynnwys

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau	1
1. Cyflwyniad	6
2. Sanctsiynau budd-daliadau – diffiniad a nodau	7
3. Y broses gosbi	8
4. Y rhesymeg dros ddiwygio	11
5. System sanctsiynau LCG	12
6. System sanctsiynau LCCh	15
7. System sanctsiynau Credyd Cynhwysol	16
8. Nifer yr unigolion y mae sanctsiynau yn effeithio arnynt	18
9. Y rhesymau pam mae hawlwr yn cael sanctsiynau	29
10. Effaith sanctsiynau ac ymatebion iddynt	32
Cyfeiriadau	37
Atodiad 1 – Enghraifft astudiaeth achos o LCCh	41
Atodiad 2 – Cyfraddau budd-dal LCCh a LCG 2014/15	42

Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

- Nod yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg o'r system sancsiynau budd-daliadau a'r newidiadau a wnaed yn ddiweddar i'r system hon, yn arbennig mewn perthynas â Lwfans Ceisio Gwaith (LCG) a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCCh). Dadansoddir data ystadegol ar nifer yr hawlwy'r a'r mathau o hawlwy'r yr effeithir arnynt yn ogystal â thystiolaeth ymchwil ar y rhesymau pam mae hawlwy'r yn cael sancsiynau a'u heffeithiau.

Y system sancsiynau

- Os bydd hawlwy'r yn methu â chyflawni'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth y budd-dal y mae ganddynt hawl iddo (heb reswm da), caiff eu budd-dal ei leihau, a elwir yn sancsiwn.
- Gwnaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ddiwygiadau sylweddol i systemau sancsiynau LCG a LCCh ar ddiwedd 2012 er mwyn creu system gryfach, cliriach a llai cymhleth a hyrwyddo ymddygiad a all arwain at gyflogaeth. Bwriedir i'r systemau llymach newydd gyd-fynd, fwy neu lai, â'r system o dan Gredyd Cynhwysol (CC).
- Gan ddibynnu ar yr hyn y mae hawlwy'r wedi methu â'i wneud a sawl gwaith y maent wedi methu â chyflawni eu cyfrifoldebau, gall sancsiwn bara am hyd at dair blynedd.
- Yn achos hawlwy'r LCG - o fis Hydref 2012, cafodd hyd sancsiynau LCG ei ymestyn o rhwng wythnos a 26 wythnos i isafswm hyd sancsiwn o bedair wythnos ac uchafswm hyd sancsiwn o dair blynedd. Bydd y cyfnod o amser yn dibynnu ar b'un ai dyma'r tro cyntaf, yr ail dro neu'r trydydd tro yn ystod y 52 wythnos diwethaf y mae'r hawlwy'r wedi methu â bodloni'r amodau sydd ynghlwm wrth yr hawl i fudd-dal a natur y methiant y gellir ei gosbi. Yn ystod cyfnod y sancsiwn, bydd hawlwy'r yn colli'r cyfan o'u budd-dal LCG. Mae rhai enghreifftiau o resymau pam y gellir gosod sancsiwn LCG yn cynnwys y canlynol: methu â mynd i gyfweliad â chynghorydd neu fethu â chymryd rhan mewn cyfweliad o'r fath, methu â bod ar gael i weithio neu adael swydd yn wirfoddol.
- Yn achos hawlwy'r LCCh – o dan y system flaenorol, dim ond ar yr elfen o'r LCCh a oedd yn cael ei thalu am weithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith y câi sancsiwn ei osod, ac ar gyfradd o 50 y cant ar gyfer y pedair wythnos gyntaf a 100 y cant ar ôl hynny. Câi'r sancsiwn ei godi ar ôl i'r hawlwy'r gydymffurfio â'r amodau. O fis Rhagfyr 2012, newidiodd y rheolau sy'n golygu y gallai rhai hawlwy'r golli mwy o arian am gyfnod hwy. Mae'r sancsiwn bellach yn gymwys i'r elfen lwfans personol (h.y. cyfran fwy o daliad budd-dal y LCCh) a cheir cyfnod sancsiwn penodol (wythnos, pythefnos neu bedair wythnos gan ddibynnu ar nifer y methiannau blaenorol) sy'n parhau ar ôl i'r hawlwy'r gydymffurfio â'r amodau. Dim ond i'r unigolion hynny yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith o LCCh y mae sancsiynau yn gymwys. Mae enghreifftiau o resymau pam y gellir gosod sancsiwn LCCh yn cynnwys y canlynol: methu â chydymffurfio â gofyniad

ynglŷn â chyfweliad seiliedig ar waith neu ofyniad ynglŷn â pharatoi ar gyfer gwaith.

- Bydd taliadau caledi, sy'n cymryd lle rhywfaint o'r budd-dal a gollir, ar gael i rai hawlwr sydd wedi cael sancsiwn, yn arbennig y rhai yr ystyrir eu bod yn agored i niwed (e.e. hawlwr â phlant ac, fel y bo'n briodol, hawlwr sy'n feichiog, neu'n anabl neu hawlwr sydd â salwch cronig neu gyfrifoldebau gofalu sylweddol neu hawlwr y mae eu partner yn feichiog neu'n anabl neu â salwch cronig neu gyfrifoldebau gofalu sylweddol). Ers mis Rhagfyr 2012, mae taliadau caledi hefyd wedi'u hystyngiadau i hawlwr LCCh sy'n gysylltiedig ag incwm. Fodd bynnag, mae rheolau cymhwyso ar gyfer taliadau caledi o dan CC yn fwy llym a gellir adennill taliadau.
- Ceir rhai amgylchiadau lle na châi sancsiwn ei osod, er enghraifft, os tybir bod gan y cwsmer reswm da dros yr ymddygiad a arweiniodd at y sancsiwn megis cam-drin domestig, iechyd meddwl, digartrefedd neu aflonyddu yn y gwaith.

Ystyriaethau gorfodol a'r broses apelio

- Cyflwynodd DWP newidiadau i'r broses apelio ar gyfer penderfyniadau ynghylch budd-dal a wnaed o fis Hydref 2013. Mae'r trefniant newydd hwn yn cyflwyno tri phrif newid, sef:
 - Mae'n rhaid i hawlwr ofyn i DWP ailystyried penderfyniad cyn y gellir cyflwyno apêl – gelwir hyn yn ailystyried gorfodol. Ar hyn o bryd, nid oes gan DWP unrhyw derfyn amser ar gyfer cwblhau'r broses ailystyried orfodol hon. Fodd bynnag, mae wedi nodi ei bod yn bwriadu cyflwyno terfyn amser yn ddiweddarach eleni.
 - Mae'n rhaid anfon apeliadau yn uniongyrchol i'r Gwasanaeth Tribiwnlys - DWP a fyddai'n gwneud hyn yn flaenorol.
 - Mae gan DWP derfynau amser ar gyfer dychwelyd ei hymatebion i'r Gwasanaeth Tribiwnlys.

Ystadegau

- Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r data mwyaf diweddar ar sancsiynau LCG a LCCh a gyhoeddwyd gan DWP yn ymwneud â'r cyfnod hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2013.

LCG

- Mae cyfanswm o 679,572 o benderfyniadau ynghylch sancsiynau LCG wedi'u gwneud rhwng mis Ebrill 2000 a mis Rhagfyr 2013 yng Nghymru, yr oedd 47 y cant ohonynt yn benderfyniadau anffafriol (h.y. roedd sancsiwn yn gymwys).

Roedd y penderfyniadau eraill yn perthyn i'r categorïau "heb fod yn anffafriol", "wedi'u gohirio" neu "wedi'u canslo"¹.

- Mae Cymru wedi dilyn Prydain Fawr, ar y cyfan, o ran nifer y penderfyniadau i osod sancsiynau LCG fel canran o'r cyfanswm yr hawlwyd. Mae'r ganran yng Nghymru wedi mwy na dyblu rhwng mis Ebrill 2000 a mis Rhagfyr 2013, o 2.1 y cant i 4.9 y cant, tra bu cynnydd o 1.9 y cant i 50 y cant ym Mhrydain Fawr dros y cyfnod hwn.
- Yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf (rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Rhagfyr 2013), cynyddodd nifer y penderfyniadau i osod sancsiynau LCG yng Nghymru fel canran o gyfanswm yr hawlwyd (cynnydd o 1.9 y cant, cynnydd o 1.5 y cant ym Mhrydain Fawr).
- dan y system sancsiynau diwygiedig, bu cynnydd sylweddol yn nifer y penderfyniadau 'wedi'u canslo'. Mae peth gwaith ymchwil yn awgrymu bod pobl yn cael eu gorfodi i roi'r gorau i hawlio LCG o ganlyniad i'r system sancsiynau newydd.
- Pennir lefel y sancsiwn LCG gan natur y methiant. Yng Nghymru, roedd dros hanner (55 y cant) y penderfyniadau anffafriol o dan system sancsiynau LCG newydd yn y grŵp 'Isel' (e.e. methu â mynd i gyfweliad â chynghorydd/cynllun cyflogaeth neu gymryd rhan mewn cyfweliad â chynghorydd/cynllun cyflogaeth), 36 y cant yn y grŵp 'Canolraddol' (e.e. methu â bodloni amodau bod ar gael i weithio/wrthi'n chwilio am waith), a 9 y cant yn y grŵp 'Uchel' (e.e. methu â chydymffurfio â gofynion penodol megis hawlydd yn gwrthod gwaith). Mae hyn yn cyd-fynd â Phrydain Fawr.
- Roedd y rhan fwyaf o unigolion (77 y cant) yng Nghymru y penderfynwyd gosod sancsiwn LCG arnynt o dan y system newydd yn cael eu cosbi am y tro cyntaf.
- Nodir isod y rhesymau mwyaf cyffredin dros benderfynu gosod sancsiwn LCG o dan y system newydd: methu â chymryd rhan mewn cynllun i helpu unigolyn i gael gwaith heb reswm da - Rhaglen Waith; peidio â chwilio am waith; a methu â mynd i gyfweliad â Chynghorydd neu gymryd rhan mewn cyfweliad â Chynghorydd heb reswm da.
- Yng Nghymru, o dan system newydd LCG, gofynnwyd i 15,332 o benderfyniadau gael eu hailystyried ac apelwyd yn erbyn 921 o benderfyniadau. Mae hyn yn golygu bod hawlwyd wedi gofyn i 14 y cant o'r holl nifer o benderfyniadau gael eu hailystyried ac mai dim ond 1 a fu'n destun apêl.

¹ Ni chaiff sancsiwn ei osod (h.y. "heb fod yn anffafriol") os gall yr hawlydd ddangos rheswm da dros yr ymddygiad a arweiniodd at sancsiwn yn cael ei ystyried (e.e. hawlydd yn gadael ei swydd oherwydd bwlio yn y gwaith). Mae penderfyniadau eraill a wneir yn cynnwys "wedi'u gohirio" (h.y. ystyrir yr achos ond, er y tybir bod sancsiwn yn briodol, nid yw'r hawlydd yn hawlio LCG mwyach) neu "wedi'u canslo" (h.y. ni wneir unrhyw benderfyniad ynghylch gosod sancsiwn. Gall hyn ddigwydd o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, mae'r atgyfeiriad ar gyfer sancsiwn wedi'i wneud drwy gamgymeriad, mae'r hawlydd yn rhoi'r gorau i hawlio cyn iddo gyflawni'r methiant y gellir ei gosbi mewn gwirionedd, neu ni ddarparwyd gwybodaeth y gofynnodd y gwneuthurwr penderfyniadau amdani o fewn cyfnod penodedig).

Dyfarwydd o blaid yr hawlydd yn achos 44 y cant o'r penderfyniadau a ailystyriwyd a 15 y cant o'r apeliadau.

- Mae nifer o nodweddion demograffig yn gysylltiedig â mwy o debygolrwydd o gael sancsiwn. Er enghraifft, mae dynion sy'n hawlio budd-daliadau yn fwy tebygol o gael eu cosbi na merched. Mae'r system sancsiynau hefyd yn effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc ac mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod pobl anabl ddiwaith yn llai tebygol, ar y cyfan, o gael eu cosbi.

LCCh

- Dan system sancsiynau newydd LCCh, a gyflwynwyd ar 3 Rhagfyr 2012, mae 7,185 o benderfyniadau ynghylch sancsiynau wedi'u gwneud hyd at fis Rhagfyr 2013 yng Nghymru, yr oedd 30 y cant ohonynt yn benderfyniadau anffafriol o gymharu â 26 y cant yn achos Prydain Fawr.
- Gymharu penderfyniadau o dan yr hen system a'r system newydd, mae cyfran y canlyniadau anffafriol wedi gostwng yn sylweddol yng Nghymru. Adlewyrchir hyn yn y ffaith bod cyfran y penderfyniadau i beidio â gosod sancsiwn neu'r penderfyniadau a ganslwyd wedi cynyddu.
- Yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf (rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Rhagfyr 2013), mae nifer y penderfyniadau i osod sancsiwn wedi bron â threblu (o 77 i 301).
- Yng Nghymru, cafodd 1,378 o unigolion² benderfyniad i osod sancsiwn LCCh o dan y system newydd. O dan yr hen system a'r system newydd gyda'i gilydd, roedd 78 y cant o'r unigolion a gafodd benderfyniad i osod sancsiwn yn cael eu cosbi am y tro cyntaf o gymharu ag 82 y cant yn achos Prydain Fawr. O'i chymharu â Phrydain Fawr, mae gan Gymru gyfran uwch o hawlwyd LCCh a gosbwyd y mae tri sancsiwn neu fwy wedi'u gosod arnynt (5 y cant o gymharu â 9 y cant yn y drefn honno).
- Mae dau reswm dros atgyfeirio hawlwyd o dan system sancsiynau LCCh, sef: methu â mynd i gyfweiliad gorfodol a methu â chymryd rhan mewn gweithgaredd cysylltiedig â gwaith. Yng Nghymru, cafodd y rhan fwyaf (91 y cant) o'r atgyfeiriadau ar gyfer sancsiwn LCCh o dan y system newydd eu gwneud am yr ail reswm.
- Yng Nghymru, o dan system newydd LCCh, gofynnwyd i 1,234 o benderfyniadau gael eu hailystyried ac apeliwyd yn erbyn 18 o benderfyniadau. Mae hyn yn golygu bod hawlwyd wedi gofyn i 17 y cant o'r holl nifer o benderfyniadau gael eu hailystyried ac mai dim ond 0.3 y cant a fu'n destun apêl (y canrannau cyfatebol ar gyfer Prydain Fawr yw 13 y cant ac 0.3 y cant). Mae hawlwyd LCCh yn cael mwy o lwyddiant na hawlwyd LCG o ran penderfyniadau a gaiff eu hailystyried ac apeliadau. O dan y system newydd dyfarwydd o blaid yr hawlydd yn achos 60 y

² Dim ond unwaith y caiff pob unigolyn ei gyfrif waeth beth fo nifer y penderfyniadau a wnaed yn ei erbyn.

cant o'r penderfyniadau a ailystyriwyd a 50 o'r apeliadau a gyflwynwyd yng Nghymru.

Tystiolaeth gwaith ymchwil

- Mae llawer o'r gwaith ymchwil a wnaed hyd yma yn ymwneud â systemau sancsiynau blaenorol LCG a LCCh. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro unrhyw dystiolaeth a ddaw i law am effaith y systemau newydd megis y dystiolaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar fel rhan o Adolygiad Oakley.
- Nid yw gwaith ymchwil yn darparu fawr ddim dystiolaeth o fethiant bwriadol i gydymffurfio â gwasanaethau neu raglenni cyflogaeth. Yn hytrach, mae'n fwy tebygol mai gwybodaeth wael, diffyg dealltwriaeth ac ymddygiad anfwriadol (e.e. anghofrwydd) yw'r rhesymau sy'n arwain at sancsiwn. Mae rhwystrau personol ac ymarferol megis problemau gyda thrafnidiaeth, gofal plant, ffyrdd di-drefn o fyw, digartrefedd, iechyd ac anabledd, camddefnyddio sylweddau a thrais domestig yn rhesymau eraill a nodwyd dros gosbi hawlwyd. Mae'r rhai sy'n wynebu nifer o rwystrau, sy'n aml ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas, yn arbennig o agored i sancsiynau.
- Mae llawer o astudiaethau wedi edrych ar effeithiau byrdymor sancsiynau budd-daliadau a phrin yw'r astudiaethau sydd wedi ystyried yr effeithiau hirdymor. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall lleihau budd-dal drwy osod sancsiwn arwain at gyfnodau byrrach o ddiweithdra a chynyddu cyfraddau gadael budd-daliadau a dechrau gwaith yn y byrdymor. Fodd bynnag, mae'r effeithiau ar ganlyniadau tymor hwy yn anffafriol ar y cyfan. Er enghraifft, er ei bod yn gyfyngedig, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod y rhai sy'n gadael budd-daliadau yn gynnar o ganlyniad i sancsiynau yn aml yn cael swyddi o ansawdd gwaeth o ran eu sefydlogrwydd (e.e. maent yn treulio llai o amser mewn gwaith am y gallant deimlo eu bod yn cael eu gorfodi i dderbyn swyddi rhan amser/dros dro) ac yn ennill llai o arian (e.e. os bydd hawlwyd yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i dderbyn swydd sy'n talu cyflog is, ac mae'r rhai sy'n derbyn swyddi o'r fath yn fwy tebygol o'u gadael a bod yn ddiwaith unwaith eto). Mae effeithiau negyddol eraill dros yr hirdymor yn cynnwys caledi ariannol a dyled, troseddu, lles emosiynol a chorfforol gwael a sgil-ffeithiau ar deulu a ffrindiau. Mae dystiolaeth am ymddygiad chwilio am waith yn gymysg ac ystyrir bod sancsiynau yn cael effaith ddeuol, sef annog hawlwyd i ddod o hyd i waith a'u rhwystro rhag gwneud hynny. Er enghraifft, nododd rhai hawlwyd eu bod yn fwy awyddus i ddod o hyd i waith ynghynt fel na fyddent yn dibynnu ar fudd-daliadau ac yn wynebu risg o gael eu cosbi mwyach. Fodd bynnag, amharwyd ar gymhelliant hawlwyd eraill am fod sancsiynau wedi creu sawl rhwystr i ddod o hyd i waith gan gynnwys ofni gwneud cais am swyddi anaddas/nad oedd eu heisiau rhag ofn y caent eu cosbi pe baent yn eu gadael a fyddai'n golygu bod ganddynt lai o arian i'w wario ar weithgareddau chwilio am waith.

1. Cyflwyniad

Nod yr adroddiad hwn yw adolygu'r dystiolaeth am sancsiynau budd-daliadau gan ymdrin â'r meysydd canlynol:

- a) Y diffiniad o sancsiwn a'i nodau.
- b) Trosolwg o'r system sancsiynau ar gyfer LCG a LCCh cyn ac ar ôl diwedd 2012 a'r system sancsiynau newydd o dan CC.
- c) Y niferoedd a'r mathau o hawl wyr y mae'r sancsiynau yn effeithio arnynt.
- ch) Rhesymau dros gael sancsiynau.
- d) Y ffordd y mae sancsiynau wedi effeithio ar hawl wyr p'un a oedd yr effaith yn un gadarnhaol neu negyddol.

2. Sancsiynau budd-daliadau – diffiniad a nodau

Mae sanciswn yn golygu dileu'r hawl i fudd-dal os na chyflawnwyd rhwymedigaethau ymddygiadol (Griggs a Evans, 2010a). Yn fwy penodol, mae sancsiwn, yn ei hanfod, yn golygu gorfodi'r cyfryw rwymedigaethau drwy gosb a osodir drwy ddileu cyfran o'r taliad budd-dal o ganlyniad i: gollu swydd flaenorol oherwydd rhywbeth y mae'r ymgeisydd am fudd-dal wedi'i wneud, gwrthod derbyn cyfle rhesymol i gael gwaith, neu'r cwsmer yn methu â chydymffurfio ag amodau a osodwyd ar gyfer cael budd-daliadau (Finn a Gloster, 2010).

Bwriedir i sancsiynau wrthbwysu anghymhellion i weithio drwy sicrhau bod hawlwr yn cydymffurfio ag amodau ymddygiadol yr hawl i gael budd-daliadau. Mae'n ofynnol i unigolion wneud rhai pethau a nodwyd ymlaen llaw yn rheolaidd, ac mae'r broses gosbi yn adlewyrchu'r hyn y mae pobl yn ei wneud a'r hyn nad ydynt yn ei wneud (Bastagli, 2008 a Griggs ac Evans, 2010). Mae rhai o'r farn bod sancsiynau yn hanfodol i orfodi cyfranogiad gorfodol, am nad yw cyfranogiad yn wirioneddol orfodol oni fydd goblygiadau i beidio â chyfranogi (Besharov a Germanis, 2004).

Gall sancsiynau effeithio ar yr amser a dreulir ar fudd-daliadau a symud i mewn i waith mewn dwy ffordd: yn gyntaf, y bygythiad o sancsiwn, lle y bydd bodolaeth sancsiwn a'r disgwyliad y caiff ei osod ynddynt eu hunain yn newid ymddygiad (yr effaith ex ante) ac yn ail, pan gaiff sanciswn ei osod (yr effaith ex post). Fodd bynnag, fel y trafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, mae astudiaethau a fu'n edrych ar effeithiolrwydd sancsiynau wedi canolbwyntio'n bennaf ar effeithiau sancsiynau a osodwyd, a phrin yw'r astudiaethau sydd wedi ystyried effeithiau bygwth (e.e. Lalive et al., 2002; Arni et al., 2009; Svarer, 2007), sy'n aml yn anodd eu nodi a'u mesur. Mae'n werth nodi bod arbrofion labordy a gynhaliwyd gan Boone et al (2007) wedi canfod y gall effeithiau disgwylidig neu effeithiau bygwth fod yn fwy na'r effeithiau sy'n deillio o osod sancsiynau. Fodd bynnag, mae cymhwyso'r arbrawf hwn at y byd go iawn yn broses gymhleth oherwydd nodweddion hawlwr (e.e. cymhelliant, amharodrwydd i fentro, sgiliau cymdeithasol a gallu) sy'n newid ymddygiad.

3. Y broses gosbi

Mae sancsiynau wedi bod yn rhan o LCG ers iddo gael ei gyflwyno gyntaf yn 1996 ac maent wedi bod yn gymwys i hawlwyrr LCCh yn y grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith ers mis Hydref 2008. Daeth system sancsiynau ddiwygiedig ar gyfer LCG a LCCh i rym o 22 Hydref 2012 a 3 Rhagfyr 2012 yn y drefn honno.

Mae LCG yn rhoi cymorth ariannol i bobl 18 oed hyd at oedran pensiwn y wladwriaeth tra eu bod yn chwilio am waith (ceir cyfraddau budd-daliadau LCG ar gyfer 2014/15 yn Atodiad 2). Rhoddir Cytundeb Ceisio Gwaith i hawlwyrr sy'n nodi'r pethau y mae'n rhaid i hawlwydd eu gwneud i ddod o hyd i waith tra bydd yn cael LCG. Mae hyn yn cynnwys mynd i gyfweiliadau â chynghorydd. O 14 Hydref 2013, ar gyfer hawlwyrr newydd LCG, disodlwyd y Cytundeb Ceisio Gwaith gan yr Ymrwymiad Hawlydd, sy'n nodi'r cyfrifoldebau (yn seiliedig ar amgylchiadau personol) y mae hawlwyrr yn eu derbyn er mwyn iddynt gael taliadau budd-dal, a'r hyn a fydd yn digwydd os na fyddant yn eu cyflawni, yn fanylach. Cytunir arno yn ystod cyfweiliad â hyfforddwr gwaith a'i nod yw pwysleisio cyfrifoldeb hawlwyrr i wneud popeth a allant i chwilio am waith yn gyfnewid am y cymorth a gânt gan y wladwriaeth (DWP, 2014c). Mae'n rhaid i hawlwyrr gyflwyno tystiolaeth i brofi eu bod wedi bodloni'r gofynion yn eu Hymrwymiad Hawlydd, ac mae'r rhai sy'n methu â gwneud hynny heb reswm da yn wynebu'r risg o golli eu budd-daliadau drwy'r broses gosbi.

Mae LCCh yn fudd-dal prawf modd sy'n rhoi cymorth ariannol i bobl o dan oedran pensiwn y wladwriaeth sydd â salwch neu anabledd sy'n effeithio ar eu gallu i weithio (ceir cyfraddau budd-daliadau LCCh ar gyfer 2014/15 yn Atodiad 2). Mae'n ofynnol i hawlwyrr gael Asesiad Gallu i Weithio i weld a ydynt yn gymwys i gael LCCh. Caiff y rhai sydd â hawl i gael LCCh eu rhoi yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith neu'r Grŵp Cymorth. Mae'n ofynnol i'r Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith fynd i gyfweiliadau rheolaidd â chynghorydd ac ymgymryd â gweithgaredd cysylltiedig â gwaith. Gallai methu â bodloni'r gofynion hyn arwain at sancsiwn. Mae'r Grŵp Cymorth yn cynnwys hawlwyrr â salwch neu anabledd sy'n cyfyngu'n ddifawr ar yr hyn y gallant ei wneud. Felly, nid yw'n ofynnol iddynt ymgymryd â gweithgaredd cysylltiedig â gwaith ac nid ydynt yn agored i sancsiynau.

Mae amgylchiadau eraill lle na châi sancsiwn ei osod, er enghraifft, lle mae 'rheswm da' dros yr ymddygiad a arweiniodd at y sancsiwn. Ni ddiffinnir rheswm da mewn deddfwriaeth, ond mae enghreifftiau yn cynnwys cam-drin domestig, iechyd meddwl, digartrefedd neu'r rhai sy'n dioddef bwlio neu aflonyddu yn y gwaith.

Gwneir atgyfeiriadau sancsiynau gan gynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith. Mae atgyfeiriadau o'r fath yn ddatganiad bod y cynghorydd o'r farn ei bod yn bosibl nad yw hawlwydd yn bodloni'r amodau sydd ynghlwm wrth ei hawl i gael budd-dal a'i bod yn bosibl, felly, nad oes ganddo hawl i gael taliad. Gwneir yr atgyfeiriad i wneuthurwr penderfyniadau sy'n penderfynu p'un a ddylid gosod sancsiwn ai peidio. Ar ôl i'r hawliad gael ei atgyfeirio i wneuthurwr penderfyniadau, ni chaiff unrhyw daliad pellach ei wneud nes i benderfyniad gael ei wneud. Gelwir penderfyniad i osod sancsiwn yn benderfyniad "anffafriol". Ni chaiff cosb ei gosod (h.y. "heb fod yn anffafriol") os gall yr hawlwydd ddangos rheswm da dros yr ymddygiad a arweiniodd at sancsiwn yn cael ei ystyried (e.e. hawlwydd yn gadael ei swydd oherwydd bwlio yn y gwaith). Mae penderfyniadau eraill a wneir yn cynnwys "wedi'u gohirio" (h.y. ystyrir yr

achos ond, er y tybir bod sancsiwn yn briodol, nid yw'r hawlydd yn hawlio LCG mwyach) neu "wedi'u canslo" (h.y. ni wneir unrhyw benderfyniad ynghylch gosod sancsiwn). Gall hyn ddigwydd o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, mae'r atgyfeiriad ar gyfer sancsiwn wedi'i wneud drwy gamgymeriad, mae'r hawlydd yn rhoi'r gorau i hawlio cyn iddo gyflawni'r methiant y gellir ei gosbi mewn gwirionedd, neu ni ddarparwyd gwybodaeth y gofynnodd y gwneuthurwr penderfyniadau amdani o fewn y cyfnod penodedig).

Os bydd hawlydd yn anghytuno â phenderfyniad ynghylch sancsiwn, gall ofyn iddo gael ei ailystyried ar yr amod ei fod yn gwneud hynny'n ysgrifenedig ac o fewn mis i ddyddiad ei lythyr penderfyniad. Bu'r broses ailystyried orfodol hon ar waith ers mis Hydref 2013. Cyn iddi gael ei chyflwyno, gallai hawlydd a oedd am herio penderfyniad ynghylch sancsiwn gyflwyno apêl ar unwaith i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad i gyflwyno proses ailystyried orfodol yn golygu bod yn rhaid i'r rhai sydd am herio penderfyniad ofyn i DWP ei ailystyried yn gyntaf ac mai dim ond pan fydd DWP wedi gwneud hynny y gall yr hawlydd apelio yn erbyn y penderfyniad os bydd yn anfodlon o hyd. Mae DWP o'r farn y bydd y newid hwn yn annog hawlwr i ddarparu tystiolaeth ychwanegol ynghynt yn y broses ac y dylai datrys anghydfodau heb yr angen am apêl hefyd helpu i sicrhau bod pobl yn cael y penderfyniad cywir ynghynt.³ Fodd bynnag, nid oes unrhyw derfyn amser penodol y mae'n rhaid i DWP ymdrin ag ailystyriaethau o'i fewn; disgwylir i hyn gael ei bennu ym mis Hydref 2014.

O dan y system sancsiynau flaenorol, pe gwneid apêl yn erbyn penderfyniad ynghylch LCCh, byddai'r budd-dal yn daladwy ar gyfradd is nes i'r penderfyniad gael ei wneud. O dan y system newydd, nid yw LCCh yn daladwy tra bod penderfyniadau yn cael eu hailystyried a thra bod unrhyw apeliadau dilynol yn cael eu hystyried. Os caiff y penderfyniad gwreiddiol ei wrthdroi, caiff budd-daliadau eu hôl-ddyddio. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y gall hawlwr â chyflyrau iechyd ac anabledau gael eu gadael heb incwm am gyfnodau estynedig.

Efallai y bydd taliadau caledi, sy'n cymryd lle rhywfaint o'r budd-dal a gollir, ar gael i rai hawlwr sydd wedi'u cosbi (y rhai sy'n hawlio LCG neu LCCh sy'n gysylltiedig ag incwm). Bydd angen i hawlwr ddangos eu bod yn wynebu risg o galedi ariannol (h.y. na fyddant yn gallu prynu eitemau hanfodol gan gynnwys bwyd, dillad, gwres a llety). Fel arfer bydd hawlwr cymwys, oni nodir eu bod mewn grŵp sy'n agored i niwed, yn cael 60 y cant⁴ o'u lwfans personol o'r 15^{fed} diwrnod o gyfnod y sancsiwn. Gall unigolion yr ystyrir eu bod yn agored i niwed (e.e. hawlwr â phlant ac, fel y bo'n briodol, hawlwr sy'n feichiog, neu'n anabl neu hawlwr sydd â salwch cronig neu gyfrifoldebau gofalu sylweddol neu hawlwr y mae eu partner yn feichiog neu'n anabl neu â salwch cronig neu gyfrifoldebau gofalu sylweddol) gael taliadau caledi drwy gydol cyfnod y sancsiwn. Ni ddylai'r sancsiwn effeithio ar fudd-daliadau eraill, megis Budd-dal Tai. Ers mis Rhagfyr 2012, mae taliadau caledi hefyd wedi'u hystyried i hawlwr LCCh sy'n gysylltiedig ag incwm. Fodd bynnag, mae rheolau cymhwysedd ar gyfer taliadau caledi o dan CC yn llymach (e.e. mae'n rhaid i hawlwr ddangos eu

³ <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130125094614/http://dwp.gov.uk/docs/appeals-process-changes-q-and-a.pdf>

⁴ Nodir y lefel o 60 y cant mewn deddfwriaeth ac ystyrir mai dyma'r isafswm sydd ei angen ar hawlwr budd-daliadau sydd mewn caledi er mwyn iddynt allu diwallu anghenion hanfodol, tra'n eu cosbi'n ariannol o hyd am fethu â chydymffurfio.

bod eisoes wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau ffynonellau amgen o gymorth, er enghraifft, drwy wneud cais i elusennau), a gellir adennill taliadau.

4. Y rhesymeg dros ddiwygio

Mae Deddf Diwygio Lles 2012 yn nodi bwriadau Llywodraeth y DU ar gyfer system gryfach a chliriach o amodoldeb a sancsiynau.

Roedd DWP (2011) o'r farn bod y system sancsiynau flaenorol (h.y. cyn diwedd 2012) yn rhy gymhleth am fod y sancsiynau am rai methiannau wedi'u pennu ar lefel ry isel ac am nad oedd hawlwr bob amser yn glir ynghylch y sancsiwn y byddent yn ei gael.

Nod y system sancsiynau newydd yw gwella cydymffurfiaeth â gofynion amodoldeb drwy wneud y canlynol:

- a) Egluro canlyniadau peidio â chydymffurfio.
- b) Darparu dull clir a chadarn o atal achosion o beidio â chydymffurfio.
- c) Sancsiynau llymach am achosion mynych o beidio â chydymffurfio (DWP, 2012a).

5. System sancsiynau LCG

Crynoir y gwahaniaethau allweddol rhwng y system LCG flaenorol a'r system LCG ddiwygiedig yn y tabl ar y tudalen nesaf. Mae'r system ddiwygiedig a gyflwynwyd ar 22 Hydref 2012 wedi dileu sancsiynau hyd amrywiol ac wedi sefydlu, yn eu lle, system lle y caiff y sancsiynau eu gosod am nifer benodol o wythnosau. Pennir hyd y sancsiwn, a fydd yn cynyddu'n sylweddol ar gyfer rhai unigolion o dan y system newydd, gan natur y methiant a nifer y sancsiynau blaenorol, ac mae sancsiynau hwy yn cael eu gosod am achosion mynych o beidio â chydymffurfio.

Mae'r system ddiwygiedig hefyd wedi cyflwyno newidiadau i'r dyddiad y mae sancsiwn yn dechrau. Yn flaenorol, byddai sanciswn yn dod i rym o ddechrau'r wythnos fudd-dal ar ôl i'r gwneuthurwr penderfyniadau benderfynu gosod y sancsiwn. Fodd bynnag, nod DWP bellach yw sicrhau bod hawlwyd yn gweld canlyniadau'r hyn y maent yn ei wneud neu nad ydynt yn ei wneud ynghynt drwy gyflwyno rheolau sy'n galluogi gwneuthurwyr penderfyniadau i osod sancsiynau ar adeg sy'n agosach at y methiant. Mae'r cyfnod sanciswn newydd yn dechrau naill ai: ar ddiwrnod cyntaf yr wythnos fudd-dal y cafwyd y methiant, os nad yw LCG wedi'i dalu i'r hawlydd ar gyfer yr wythnos honno; neu, ar ddiwrnod cyntaf yr wythnos fudd-dal yn dilyn y dyddiad y talwyd LCG i'r hawlydd ddiwethaf.

Y system LCG flaenorol a'r system LCG ddiwygiedig – gwahaniaethau allweddol (Ffynhonnell: Oakley, 2014)

Lefel y sanciswn	Y system LCG flaenorol	Y system LCG ddiwygiedig o 22 Hydref 2012		
		Methiant 1 ^{af}	2 ^{ll} fethiant	3 ^{ydd} methiant
Uwch – methu â chydymffurfio â gofynion penodol (e.e. hawlydd yn gwrthod gwaith; gwrthod cymryd rhan mewn gweithgaredd gwaith gorfodol; gadael swydd yn wirfoddol neu oherwydd camymddygiad)	Yn amrywio o 1 i 26 wythnos (heblaw am Weithgaredd Gwaith Gorfodol, sydd wedi'i phennu'n 13 wythnos).	Mae hawlwr yn colli'r cyfan o'u LCG am gyfnod penodol o:		
		13 wythnos	26 wythnos (os yw o fewn 52 wythnos ond nid o fewn pythefnos i'w methiant diwethaf).	156 wythnos (tair blynedd) (os yw o fewn 52 wythnos ond nid o fewn pythefnos i'w methiant diwethaf a arweiniodd at sancsiwn am gyfnod o 26 neu 156 wythnos).
Canolraddol – methu â bodloni amodau bod ar gael i weithio neu'n chwilio am waith.	Dileu hawl ⁵ , ond dim sancsiwn. Gallai hawlwr adennill a chael y swm llawn o LCG ar unwaith ar ddiwedd y cyfnod dileu hawl ar yr amod eu bod yn dangos eu bod bellach yn bodloni amodau eu hawl i gael budd-dal.	Dileu hawl (ac, o bosibl, sancsiwn) am hyd at 4 wythnos	Dileu hawl (ac, o bosibl, sancsiwn) am hyd at 13 wythnos (os yw o fewn 52 wythnos ond nid o fewn pythefnos i'w methiant diwethaf a arweiniodd at sancsiwn am gyfnod o 4 neu 13 wythnos).	
Is – methu â mynd i gyfweiliad â chynghorydd/cynllun cyflogaeth neu gymryd rhan mewn cyfweiliad â chynghorydd/cynllun cyflogaeth.	Sancsiynau penodol am 1, 2, 4 neu 26 wythnos gan ddibynnu ar nifer y methiannau blaenorol.	4 wythnos	13 wythnosau (o fewn cyfnod o 52 wythnos i'w methiant diwethaf).	

⁵ Gellir dileu hawl hawlydd i gael LCG os bydd yn methu â bodloni amodau marchnad lafur sylfaenol y budd-dal. Pan ddilëir hawl hawlydd daw'r LCG a ddyfarnwyd iddo i ben. Mae amodau'r farchnad lafur sydd ynghlwm wrth yr hawl i gael LCG yn cynnwys: bod ar gael i weithio, bod wrthi'n chwilio am waith a bod ag Ymrwymiad Hawlydd cyfredol, wedi'i lofnodi. Yn ogystal â dileu hawl unigolyn i gael LCG, efallai y caiff sancsiwn budd-daliadau ei osod hefyd am beidio â bodloni gofynion y farchnad lafur. Mae sancsiwn yn golygu tynnu budd-dal hawlydd yn ôl am gyfnodau dros dro penodol (Lane et al, 2011).

Enghraifft sy'n dangos y gwahaniaethau rhwng y ddwy system

Mae hawlydd yn gadael swydd yn wirfoddol, yr ystyrir ei fod yn fethiant lefel uwch, a dyma ei ail fethiant o fewn cyfnod o 52 wythnos. Câi sancsiwn ei osod ar daliadau LCG yr hawlydd am 26 wythnos.

6. System sancsiynau LCCh

Crynoir y gwahaniaethau allweddol rhwng y system LCCh flaenorol a'r system LCCh ddiwygiedig yn y tabl isod. Mae'r newidiadau hyn yn golygu y gall hawlwyrr gollu mwy o arian am gyfnod hwy.

Y system LCCh flaenorol a'r system LCCh ddiwygiedig – gwahaniaethau allweddol (Ffynhonnell: DWP, 2012b)

	Y system LCCh flaenorol	Y system LCCh ddiwygiedig (o 3 Rhagfyr 2012)
Hyd y sancsiwn	Cyfnod amhenodol nes i'r hawlydd fodloni'r gofynion.	Cyfnod amhenodol nes i'r hawlydd fodloni'r gofynion. Wedi'i ddilyn gan gyfnod sancsiwn penodol o 1, 2 neu 4 wythnos - mae'r union gyfnod yn dibynnu ar achosion blaenorol o beidio â chydymffurfio yn ystod y 52 wythnos flaenorol.
Y swm y gellir gosod sanciswn arno	50 y cant o'r Efen Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith (WRAC) am y 4 wythnos gyntaf o beidio â chydymffurfio a fydd yn cynyddu i 100 y cant o'r WRAC ar ôl hynny. Yn 2012/13 (h.y. y gyfradd olaf a oedd yn gymwys o dan y system flaenorol), y WRAC oedd £28.15 yr wythnos.	100 y cant o'r elfen lwfans personol ar gyfer un person (£72.40 yr wythnos ar hyn o bryd). Ni chaiff sancsiwn ei osod o ran y WRAC (£28.75 ar hyn o bryd) nac unrhyw breimymau. Bydd hawlwyrr LCCh (cysylltiedig ag incwm) yn gallu gwneud cais am daliadau caledi (h.y. 60 y cant o'r lwfans personol).

Enghraifft sy'n dangos y gwahaniaethau rhwng y ddwy system

Nid yw hawlydd yn mynd i gyfweiliad â chynghorydd. Ar ôl pythefnos, cydymffurfiodd yr hawlydd â'r amod drwy fynd i'r cyfweiliad. Byddai'r cyfan o'r budd-dal LCCh yn destun sancsiwn am gyfanswm o 3 wythnos (h.y. cyfnod amhenodol = 2 wythnos, cyfnod penodol ar gyfer y methiant 1^{af} = wythnos). Ceir enghraifft fanylach o effaith y newidiadau i system sancsiynau LCCh yn Atodiad 1.

7. System sancsiynau Credyd Cynhwysol

Mae'r diwygiadau uchod i systemau sancsiynau LCG a LCCh yn cyd-fynd, fwy neu lai, â model sancsiynau CC gyda'r nod o hwyluso'r broses bontio ar gyfer hawlwr a staff. Mae dull gweithredu CC yn cynnwys pedair lefel o sancsiwn, a grynhoir yn y tabl isod.

Lefel y sanciswn	Yn gymwys i:	Hyd		
		methiant 1 ^{af}	2 ^{il} fethiant	3 ^{ydd} methiant neu unrhyw fethiant dilynol
Uchel - e.e. methu â derbyn cynnig gwaith â thâl	Hawlwr sy'n gorfod bodloni'r holl ofynion cysylltiedig â gwaith.	91 diwrnod	182 diwrnod	1095 diwrnod
Canolig - e.e. methu â chymryd pob cam rhesymol i ddod o hyd i waith.	Hawlwr sy'n gorfod bodloni'r holl ofynion cysylltiedig â gwaith.	28 diwrnod	91 diwrnod	
Isel - e.e. methu â gwneud pethau penodol a nodwyd er mwyn paratoi ar gyfer gwaith.	Hawlwr sy'n gorfod bodloni'r holl ofynion cysylltiedig â gwaith. Hawlwr sy'n gorfod bodloni gofynion o ran paratoi ar gyfer gwaith a chyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith.	Cyfnod amhenodol nes i'r hawlwrdd fodloni'r gofynion unwaith eto, ynghyd â:		
		7 diwrnod	14 diwrnod	28 diwrnod
Isaf - e.e. methu â chymryd rhan mewn cyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith.	Hawlwr sy'n gorfod bodloni gofynion cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith yn unig.	Cyfnod amhenodol nes i'r hawlwrdd fodloni'r gofynion unwaith eto.		

Ffynhonnell: DWP (2012a)

Bydd lefel y sancsiwn a gaiff hawlwrdd penodol yn dibynnu ar y grŵp amodoldeb y mae'n perthyn iddo. Caiff hawlwr sy'n agored i sancsiynau lefel uchel, canolig ac isel eu cosbi drwy golli swm sy'n cyfateb i 100 y cant o swm eu lwfans safonol. Caiff hawlwr sy'n agored i'r sancsiynau lefel isaf eu cosbi drwy golli swm sy'n cyfateb i 40 y cant o'u lwfans safonol.

Bydd CC yn golygu bod grwpiau newydd o hawl wyr yn gorfod bodloni gofynion amodoldeb. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n cael credydau treth ar hyn o bryd, gan gynnwys y rhai mewn gwaith. Er enghraifft, mae Adam a Phillips (2013) yn nodi, os gosodir amodau hyd at drothwyon enillion uchaf, a chan dybio bod pawb sydd â hawl i CC yn ei hawlio, maent yn amcangyfrif y byddai tua 170,000 o unigolion yng Nghymru yn gorfod bodloni amodau cysylltiedig â gwaith. Mae hyn yn cymharu â thua 120,000 cyn cyflwyno CC (unwaith eto gan dybio bod pawb sy'n gymwys yn ei hawlio)⁶.

⁶ Ffigurau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio model microefelychu budd-daliadau a threth y Sefydliad Asiantaethau Cyllidol, TAXBEN, ac Arolwg Adnoddau Teulu 2007-08, 2008-2009 a 2009-10. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys pobl hunangyflogedig y tybir eu bod yn ennill swm sy'n cyfateb i 35 gwaith yr isafswm cyflog o dan system CC.


8. Nifer yr unigolion y mae sancsiynau yn effeithio arnynt

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r data mwyaf diweddar ar sancsiynau LCG a LCCh a gyhoeddwyd gan DWP yn ymwneud â'r cyfnod hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2013. Mae'r paragraffau canlynol yn yr adran hon cyn crynhoi'r prif ffigurau.

LCG

Mae cyfanswm o 679,572 o benderfyniadau ynghylch sancsiynau LCG wedi'u gwneud rhwng mis Ebrill 2000 a mis Rhagfyr 2-13 yng Nghymru, yr oedd 319,715 yn benderfyniadau anffafriol (h.y. roedd sancsiwn yn gymwys). Mae hyn yn cyfateb i 47 y cant o'r holl benderfyniadau a wnaed o gymharu â 45 y cant ar gyfer Prydain Fawr.

Dengys y siart isod fod Cymru wedi dilyn Prydain Fawr, fwy neu lai, o ran nifer y penderfyniadau i osod sancsiynau LCG fel canran o gyfanswm yr hawlwyd. Yng Nghymru, mae'r ganran wedi mwy na dyblu rhwng mis Ebrill 2000 a mis Rhagfyr 2013, o 2.1 y cant i 4.9 y cant. Ym Mhrydain Fawr cynyddodd y ganran o 1.9 y cant i 5.0 y cant dros y cyfnod hwn. Ymhlith saith grŵp swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith, roedd gan Ogledd-orllewin Lloegr y nifer fwyaf o benderfyniadau i osod sancsiynau fel canran o gyfanswm yr hawlwyd (5.7 y cant) ac roedd gan Lundain a'r Siroedd Cartref y nifer isaf (4.3 y cant). Roedd gan Gymru y bedwaredd nifer fwyaf.



Ffynhonnell data: Stat Xplore a Nomis


Gwelodd pob un o saith grŵp swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith gynnydd yn nifer y penderfyniadau i osod sancsiynau LCG fel canran o gyfanswm yr hawlwyd dros y flwyddyn ddiweddaraf (rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Rhagfyr 2013) a gwelodd Gogledd-orllewin Lloegr y cynnydd mwyaf (2.0 y cant) wedi'i ddilyn gan Gymru a Gogledd-ddwyrain Lloegr (cynyddodd y naill a'r llall 1.9 y cant). Gwelodd Llundain a'r Siroedd Cartref y cynnydd lleiaf dros y cyfnod hwn, sef 0.7 y cant (gwelodd Prydain Fawr gynnydd o 1.5 y cant).

Yng Nghymru, o dan system newydd sancsiynau LCG, a gyflwynwyd ar 22 Hydref 2012, mae cyfanswm o 110,311 o benderfyniadau ynghylch sancsiynau wedi'u gwneud hyd at fis Rhagfyr 2013, yr oedd 49,498 (45 y cant) yn benderfyniadau anffafriol. Ar gyfer Prydain Fawr, cyfanswm y penderfyniadau a wnaed ynghylch sancsiynau yw 2.36 miliwn, yr oedd 1.03 miliwn ohonynt (44 y cant) yn benderfyniadau anffafriol.

Roedd Cymru yn cyfrif am 5 y cant o gyfanswm y penderfyniadau ynghylch sancsiynau LCG a wnaed ym Mhrydain Fawr o dan y system sancsiynau newydd, sef y ganran isaf o blith saith grŵp swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith. Roedd Canolbarth Lloegr yn cyfrif am y gyfran fwyaf, sef 21 y cant. Roedd gan Gymru y gyfran leiaf o'r penderfyniadau anffafriol a wnaed ym Mhrydain Fawr hefyd ac unwaith eto roedd yn cyfrif am 5 y cant yn unig, gyda Chanolbarth Lloegr yn cyfrif am 22 y cant o'r cyfanswm ar gyfer Prydain Fawr.

Roedd y penderfyniadau eraill yn perthyn i'r categorïau “heb fod yn anffafriol”, “wedi'u gohirio” neu “wedi'u canslo”⁷. Mae'n werth nodi, yng Nghymru, o dan y system sancsiynau newydd, fod 24,285 o benderfyniadau (22 y cant) wedi'u canslo, sy'n gynydd sylweddol o gymharu â'r hen system (6 y cant). Mae Webster (2013) wedi awgrymu bod pobl wedi cael eu gorfodi i roi'r gorau i hawlio LCG o ganlyniad i'r system sancsiynau newydd.


Dengys y siart isod, ym mhob un o dair ardal y Ganolfan Byd Gwaith yng Nghymru, fod cyfrannau canlyniadau penderfyniadau ynghylch sancsiynau LCG (h.y. heb fod yn anffafriol, anffafriol, wedi'u gohirio ac wedi'u canslo) yn debyg i'r rhai ar gyfer Cymru ac yn unol â hwy, ar y cyfan.



Ffynhonnell data: Stat Xplore

⁷ Rhoddir esboniad manylach o'r penderfyniadau hyn ar dudalennau 8 - 9.

Yng Nghymru, roedd 55 y cant o'r penderfyniadau anffafriol o dan system newydd sancsiynau LCG yn y grŵp 'Isel', roedd 36 y cant yn y grŵp 'Canolraddol' ac roedd 9 y cant yn y grŵp 'Uchel'. Mae hyn yn cymharu â 53 y cant, 38 y cant a 9 y cant ar gyfer Prydain Fawr.




Ffynhonnell data: Stat Xplore

Ymhlith saith grŵp swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith, roedd gan Ogledd-orllewin Lloegr y gyfran fwyaf o benderfyniadau i osod sancsiynau LCG yn y grŵp 'Isel' (59 y cant), roedd gan Gymru y 4^{edd} gyfran fwyaf ac roedd gan Ganolbarth Lloegr y gyfran fwyaf yn y grŵp 'Canolraddol', sef 42 y cant (roedd gan Gymru y drydedd gyfran leiaf ar ôl Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd-ddwyrain Lloegr), ac roedd gan Dde Lloegr y gyfran fwyaf (16 y cant) yn y grŵp 'Uchel' (roedd gan Gymru y drydedd gyfran fwyaf).

Yng Nghymru, o dan y system newydd, cafodd 35,970 o unigolion⁸ benderfyniad i osod sancsiwn LCG o dan y system newydd. Ar bob lefel o sancsiwn, fel y dangosir yn y siart ar y tudalen nesaf, roedd 77 y cant o'r unigolion a gafodd benderfyniad anffafriol yn cael eu cosbi am y tro cyntaf o dan y system sancsiynau newydd o gymharu â 76 y cant ar gyfer Prydain Fawr. Ymhlith saith grŵp swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith roedd gan Lundain a'r Siroedd Cartref a De Lloegr y ganran uchaf (78 y cant yn achos y naill a'r llall) wedi'u dilyn gan Gymru ac roedd gan Ogledd-ddwyrain Lloegr y ganran isaf, sef 73 y cant.

⁸ Dim ond unwaith y caiff pob unigolyn ei gyfrif waeth beth fo nifer y penderfyniadau a wnaed yn ei erbyn.

Amllder y bydd unigolion yn cael sancsiwn LCG (system newydd)




Ffynhonnell data: Stat Xplore

Ledled Cymru a Phrydain Fawr, y rhesymau mwyaf cyffredin dros benderfynu gosod sancsiynau LCG o dan yr hen system oedd: wedi gadael swydd yn wirfoddol heb reswm da; a methu â mynd i gyfweiliad â Chynghorydd neu gymryd rhan mewn cyfweiliad â Chynghorydd heb reswm da. O dan y system newydd, y rhesymau mwyaf cyffredin yw: methu â chymryd rhan mewn cynllun i helpu unigolyn i gael gwaith heb reswm da - Rhaglen Waith; peidio â chwilio am waith; a methu â mynd i gyfweiliad â Chynghorydd neu gymryd rhan mewn cyfweiliad â Chynghorydd heb reswm da. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ystadegau ar gyfer Prydain Fawr⁹.

Yng Nghymru, o dan system newydd LCG, gofynnwyd i 15,332 o benderfyniadau gael eu hailystyried ac apeliwyd yn erbyn 921 o benderfyniadau. Mae hyn yn golygu bod hawlwyd wedi gofyn i 14 y cant o'r holl nifer o benderfyniadau gael eu hailystyried ac mai dim ond 1 a fu'n destun apêl.


Dengys y siart ar y tudalen nesaf, yng Nghymru, fod canran yr ailystyriaethau a arweiniodd at benderfyniad i beidio â gosod sancsiwn wedi gostwng ychydig o dan y system newydd o gymharu â'r hen system. Fodd bynnag, mae Prydain Fawr wedi gweld gostyngiad mwy sylweddol yng nghyfran yr ailystyriaethau a arweiniodd at benderfyniad i beidio â gosod sancsiwn.

⁹ Gellir gorfodi hawlwyd y mae angen iddynt chwilio am waith neu baratoi ar gyfer gwaith i ymgymryd â gweithgaredd i fynd i'r afael ag angen am sgiliau a nodwyd, a fydd yn eu helpu i symud i mewn i waith, a elwir fel arall yn Amodoldeb Sgiliau. Nod y polisi yw sicrhau y caiff hawlwyd eu hatgyfeirio i gael cyngor gyrfaoedd neu hyfforddiant sgiliau a fydd yn eu helpu i ddechrau a gorffen y cwrs. Dim ond i'r rhai sy'n cael LCG neu LCCh (grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith) y mae Amodoldeb Sgiliau yn gymwys. Mae Amodoldeb Sgiliau yn cwmpasu pob math o hyfforddiant. Mae methu â chymryd rhan mewn cynllun Amodoldeb Sgiliau yn un o'r rhesymau dros wneud atgyfeiriadau ar gyfer sancsiynau. Yng Nghymru, mae'r rheswm hwn yn cyfrif am 1 y cant o'r penderfyniadau ynghylch sancsiynau LCG o dan y system newydd. Mae'r gyfran gyfatebol ar gyfer Prydain Fawr ddwywaith yn fwy na'r ganran hon (sef 2 y cant). Mae'n debygol bod hyn i'w briodoli i'r ffaith bod amodoldeb sgiliau wedi'i dreialu yn ddiweddarach yng Nghymru (h.y. mis Hydref 2012 o gymharu â mis Awst 2011, sef y dyddiad gweithredu yn Lloegr, a diwedd mis Mehefin 2012, sef y dyddiad gweithredu yn yr Alban).



Ffynhonnell data: Stat Xplore

Dengys y siart isod, o dan yr hen system, o'i chymharu â Phrydain Fawr, bod gan Gymru ganran debyg iawn o apeliadau lle y penderfynwyd peidio â gosod sancsiwn. Mae'r ganran hon wedi cynyddu o dan y system newydd ym Mhrydain Fawr a Chymru (h.y. dyfernir o blaid yr hawlydd mewn cyfran fwy o apeliadau), ond yn fwy ym Mhrydain Fawr.



Ffynhonnell data: Stat Xplore


Dengys data'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth (CAB) ar gyfer Cymru a Lloegr fod problemau sy'n gysylltiedig â sancsiynau LCG wedi cynyddu 60 y cant ers i'r system gael ei newid ym mis Hydref 2012 (CAB, 2014a).

Dadansoddiad demograffig

Nodwyd bod rhyw yn ffactor pwysig yn nhystiolaeth y DU. O dan yr hen system sancsiynau a'r un newydd, mae gwrywod yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r rhai sydd wedi cael eu cosbi (a chyfran fwy na'u cynrychiolaeth ym mhoblogaeth LCG – gweler y

siart isod). Mae'r nifer uwch o sancsiynau LCG a osodir ar wrywod yn adlewyrchu'r ffaith bod hawlwy LCG yn fwy tebygol o fod yn wrywod sy'n hawlio LCG am gyfnodau hwy na'u cymheiriaid benywaidd. O dan y system newydd, bu gostyngiad yn nifer y penderfyniadau anffafriol ar gyfer gwrywod o gymharu â'r hen system ac mae'r gyfran hon yng Nghymru wedi gostwng o 79 y cant i 74 y cant o gymharu â gostyngiad o 77 y cant i 73 y cant ym Mhrydain Fawr.

Mae system sancsiynau LCG yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc (rhwng 18 a 24 oed). Maent yn cynrychioli tua 30 y cant o'r holl hawlwy LCG (Nomis, data Rhagfyr 2013) ond mae'r grŵp oedran hwn yn cyfrif am y gyfran fwyaf (tua hanner) o'r penderfyniadau i osod sancsiynau LCG (gweler y siart isod). Mae'r gyfran hon wedi gostwng yng Nghymru (o 53 y cant i 47 y cant) ac ym Mhrydain Fawr (48 y cant i 41 y cant) ers i'r system newydd gael ei chyflwyno. Bu cynnydd cyfatebol ym mhob un o'r categorïau oedran eraill ac eithrio ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 17 oed. Mae rhywfaint o dystiolaeth ymchwil yn priodoli'r effaith anghymesur hon i agwedd fwy ymlaciedig hawlwy iau am eu bod yn cael cymorth ariannol gan eu teuluoedd (Peters a Joyce, 2006).



Ffynhonnell data: Stat Xplore a Nomis

Mae pobl anabl yn cyfrif am tua un o bob pump o'r holl benderfyniadau i osod sancsiynau LCG. Mae'r gyfran hon wedi gostwng ychydig yng Nghymru (o 22 y cant i 19 y cant) a Phrydain Fawr (23 y cant i 20 y cant) ers i'r system newydd gael ei chyflwyno. Mae DWP (2011) yn nodi bod pobl ag anabledd yn llai tebygol o gael sancsiwn yn gyffredinol, yn bennaf am fod hawlwy LCG anabl yn gallu dangos 'rheswm da' yn amlach ar gyfer methiannau y gellid eu cosbi (sy'n golygu nad ydynt yn cael eu cosbi). Mae ffigurau DWP yn cyd-fynd â'r rhai a gofnodwyd gan CAB (2014a) sy'n dangos bod un o bob pedwar o'i chleientiaid sy'n ceisio cymorth mewn perthynas â sancsiynau LCG yn eu disgrifio eu hunain fel pobl anabl neu bobl â phroblem iechyd hirdymor.

Yn unol â chyfansoddiad y boblogaeth gyffredinol, mae hawlwy gwyn yn cyfrif am y mwyafrif helaeth o'r penderfyniadau i osod sancsiynau LCG (74 y cant ym Mhrydain Fawr ac 88 y cant yng Nghymru). Ni nododd tua 8 y cant o'r hawlwy yng Nghymru a Phrydain Fawr eu grŵp ethnig ac, felly, mae'n anodd asesu a yw system sancsiynau

LCG yn cael effaith anghymesur ar grwpiau penodol. Fodd bynnag, mewn arolwg o hawlwy LCG a oedd wedi cael eu cosbi, nododd Peters a Joyce (2006) fod ymatebwyr gwyn Prydeinig i'r arolwg yn dangos mwy o ymwybyddiaeth o'r system na grwpiau ethnig eraill, sy'n awgrymu y gall iaith fod yn ffactor sy'n effeithio ar y tebygolrwydd o gael sancsiwn. Mae cyfrannau pob un o'r grwpiau ethnig wedi aros yr un peth neu wedi cynyddu o dan y system newydd. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yng nghyfran yr hawlwy a oedd yn barod i ddatgelu eu grŵp ethnig.


Ceir nodweddion gwarchoddedig eraill gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil ac ailbennu rhywedd. Nid DWP yn cadw'r wybodaeth hon ar ei system weinyddol (heblaw am wybodaeth am feichiogrwydd a mamolaeth, a gedwir lle mai dyma'r prif reswm dros analluogrwydd). Fodd bynnag, ni ddisgwylir i system newydd sancsiynau LCG gael unrhyw effeithiau andwyol ar sail unrhyw un o'r nodweddion hyn (DWP, 2011).

Nododd rhywfaint o dystiolaeth arolwg (Peters a Joyce, 2006) sy'n ymwneud â hawlwy LCG nad oedd ymatebwyr a oedd wedi cael sancsiwn yn fwy nac yn llai tebygol o fod yn wynebu anawsterau o ran cymwysterau, llythrennedd neu rifedd na hawlwy LCG nad oeddent wedi cael sancsiwn. Fodd bynnag, nododd yr arolwg fod ymatebwyr a oedd wedi cael sancsiwn ychydig yn fwy tebygol o fod ag anawsterau dysgu na'r ymatebwyr nadd oeddent wedi cael sancsiwn (15 y cant o gymharu ag 11 y cant).

LCCh

O dan system newydd sancsiynau LCCh, a gyflwynwyd ar 3 Rhagfyr 2012, mae 7,185 o benderfyniadau ynghylch sancsiynau wedi'u gwneud hyd at fis Rhagfyr 2013 yng Nghymru, yr oedd 2,172 (30 y cant) yn benderfyniadau anffafriol o gymharu â 26 y cant ar gyfer Prydain Fawr. Ymhlith saith grŵp swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith roedd gan Gymru y ganran uchaf o benderfyniadau anffafriol ac roedd gan Ogledd-ddwyrain Lloegr y gyfran isaf (21 y cant). Cafwyd y gyfran uchaf o benderfyniadau i beidio â gosod sancsiwn yng Nghymru hefyd (35 y cant o gymharu â 27 y cant ar gyfer Prydain Fawr) – mae hyn i'w briodoli i ganran lawer is o benderfyniadau a ganslwyd (35 y cant yng Nghymru o gymharu â 47 y cant ym Mhrydain Fawr).


Dengys y siart ar y tudalen nesaf ganlyniadau penderfyniadau ynghylch sancsiynau LCCh ar gyfer Cymru gyfan a phob un o dair ardal y Ganolfan Byd Gwaith a geir yng Nghymru. O gymharu penderfyniadau o dan yr hen system a'r system newydd ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn, mae'n amlwg bod cyfran y canlyniadau sy'n anffafriol wedi gostwng yn sylweddol. Adlewyrchir hyn yn y ffaith bod cyfran y penderfyniadau i beidio â gosod sancsiwn neu'r penderfyniadau a ganslwyd wedi cynyddu. Er enghraifft, yng Nghymru, mae cyfran y penderfyniadau a ganslwyd wedi cynyddu o 29 y cant o dan yr hen system i 35 y cant o dan y system newydd.



Ffynhonnell data: Stat Xplore

Gwelodd pob un o saith grŵp swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith gynnydd yn nifer y penderfyniadau i osod sancsiynau LCCh yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf (rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Rhagfyr 2013) a gwelodd Llundain a'r Siroedd Cartref y cynnydd mwyaf (o 226 i 1,421, sy'n fwy na chynnydd pumplyg). Yng Nghymru, roedd nifer y penderfyniadau i osod sancsiynau bron wedi treblu dros y cyfnod hwn (o 77 i 301).

Yng Nghymru, cafodd 1,378 o unigolion benderfyniad i osod sancsiynau LCCh o dan y system newydd. Fel y dangosir yn y siart ar y tudalen nesaf, o dan yr hen system sancsiynau a'r un newydd, roedd 78 y cant o'r unigolion a gafodd benderfyniad anffafriol yn cael eu cosbi am y tro cyntaf o gymharu ag 82 y cant ar gyfer Prydain Fawr. O'i chymharu â Phrydain Fawr, mae gan Gymru gyfran uwch o hawlwyd LCCh a gosbwyd y mae tri sancsiwn neu fwy wedi'u gosod arnynt (5 y cant o gymharu â 9 y cant yn y drefn honno).



Ffynhonnell data: Stat Xplore


Mae dau reswm dros atgyfeirio hawlwr o dan system sancsiynau LCCh, sef¹⁰: methu â mynd i gyfweliad gorfodol a methu â chymryd rhan mewn gweithgaredd cysylltiedig â gwaith. Ledled Cymru a Phrydain Fawr, cafodd y rhan fwyaf o atgyfeiriadau ar gyfer sancsiynau LCCh eu gwneud o dan yr hen system am y rheswm cyntaf (gyda 87 y cant a 70 y cant o hawlwr yn cael eu hatgyfeirio am y rheswm hwn ym Mhrydain Fawr a Chymru yn y drefn honno) ond erbyn hyn, o dan y system newydd, mae'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau yn cael eu gwneud am yr ail reswm (gyda 79 y cant a 91 y cant o hawlwr yn cael eu hatgyfeirio am y rheswm hwn ym Mhrydain Fawr a Chymru yn y drefn honno).

Yng Nghymru, o dan system newydd LCCh, gofynnwyd i 1,234 o benderfyniadau gael eu hailystyried ac apeliwyd yn erbyn 18 o benderfyniadau. Mae hyn yn golygu bod hawlwr wedi gofyn i 17 y cant o'r holl nifer o penderfyniadau i osod sancsiwn gael eu hailystyried a'u bod wedi apelio yn erbyn 0.3 y cant yn unig (y canrannau cyfatebol ar gyfer Prydain Fawr yw 13 y cant ac 0.3 y cant).

Mae hawlwr LCCh yn cael mwy o lwyddiant na hawlwr LCG o ran penderfyniadau a gaiff eu hailystyried ac apeliadau.


Dengys y siart ar y tudalen nesaf, o dan hen system LCCh a'r un newydd, fod y rhan fwyaf o'r penderfyniadau a ailystyriwyd yng Nghymru a Phrydain Fawr wedi arwain at ganlyniad nad oedd yn anffafriol (h.y. dyfarnwyd o blaid yr hawlwr). Fodd bynnag, mae'r gyfran hon wedi gostwng o dan y system newydd, yn arbennig ym Mhrydain Fawr.

¹⁰ Cyn mis Mehefin 2011, yr unig reswm dros osod sancsiwn LCCh oedd methu â mynd i gyfweliad. Ers hynny, gellir cosbi hawlwr hefyd am fethu â chymryd rhan mewn gweithgaredd cysylltiedig â gwaith. Mae hyn yn esbonio'r cyferbyniad yn yr ystadegau o ran rhesymau atgyfeirio o dan y system sancsiynau flaenorol a'r system sancsiynau ddiwygiedig.



Ffynhonnell data: Stat Xplore

Dengys y siart isod, o dan yr hen system, o gymharu â Phrydain Fawr, fod gan Gymru gyfran uwch o apeliadau lle y penderfynwyd peidio â gosod sanciswn. Mae'r ganran hon wedi cynyddu o dan y system newydd yng Nghymru (h.y. dyfernir o blaid yr hawlydd mewn cyfran uwch o apeliadau), ond mae wedi gostwng ym Mhrydain Fawr.



Ffynhonnell data: Stat Xplore

Dadansoddiad demograffig

Er bod gwrywod yn parhau i gyfrif am y rhan fwyaf o'r rhai y gosodwyd sancsiwn arnynt, mae'r gyfran hon wedi gostwng yng Nghymru (o 59 y cant i 53 y cant) a Phrydain Fawr (o 56 y cant i 55 y cant) o dan system newydd sanctsiynau LCCh o gymharu â'r hen system. Yn yr un modd, mae cyfran y benywod y gosodwyd sanciswn LCCh arnynt wedi cynyddu (10 y cant yng Nghymru a Phrydain Fawr). Fodd bynnag, mae'n bosibl bod hyn yn gysylltiedig â chynnydd yng nghyfran y penderfyniadau lle mae rhyw'r hawlydd wedi'i gofnodi.

O dan hen system sancsiynau LCCh, roedd tua chwarter yr unigolion y gosodwyd sancsiwn arnynt yng Nghymru rhwng 18 a 24 oed (un o bob pump ym Mhrydain Fawr). O dan y system newydd, mae'r gyfran hon wedi gostwng i 15 y cant (12 y cant ym Mhrydain Fawr). Mae penderfyniadau i osod sancsiynau wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal rhwng ystodau oedran ac, yng Nghymru, mae'r gyfran wedi cynyddu ar gyfer pob ystod oedran arall (ac eithrio pobl ifanc rhwng 16 a 17 oed). Fodd bynnag, y rhai hynaf (55 oed a throsodd) a'r rhai ieuengaf (rhwng 16 a 17 oed) sydd leiaf tebygol o gael sancsiwn LCCh o hyd. Mae'n werth nodi, am fod oedran yr hawlwydd yn hysbys / ar gael ar gyfer cyfran uwch o hawlwydd o dan y system newydd, y bydd hyn yn effeithio ar y data.

Mae pobl anabl yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r holl benderfyniadau i osod sancsiynau LCCh. Mae'r gyfran hon wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru (o 52 y cant i 67 y cant) a Phrydain Fawr (57 y cant i 80 y cant) ers i'r system newydd gael ei chyflwyno. Bydd y ffaith bod y statws anabledd ar gael ar gyfer cyfran uwch o hawlwydd o dan y system newydd yn effeithio ar y broses cymharu data hon.

Mae'r rhaniad o ran penderfyniadau i osod sancsiynau LCCh yn ôl grwpiau ethnig wedi aros yr un peth, fwy neu lai, o dan y system newydd ac eithrio cyfran yr hawlwydd sy'n wyn, sydd wedi cynyddu ychydig (70 y cant i 80 y cant ym Mhrydain Fawr ac 85 y cant i 89 y cant yng Nghymru). Gan fod cynnydd cyfatebol wedi bod yng nghyfran yr hawlwydd sydd wedi cofnodi eu grŵp ethnig; ymddengys fod y cynnydd yn nifer yr hawlwydd gwyn sy'n cael sancsiwn i'w briodoli i hyn.

Mae'r ddwy adran nesaf yn crynhoi canfyddiadau rhai o'r astudiaethau allweddol sydd wedi asesu'r rhesymau pam mae hawlwydd yn cael sancsiynau a'u heffeithiau posibl. Mae'n werth nodi bod y mwyafriif helaeth o'r astudiaethau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn ymwneud ag effaith y system sancsiynau cyn y newidiadau a ddaeth i rym ar ddiwedd 2012. Cafodd adolygiad annibynnol o rai o'r newidiadau hyn ei gynnal yn ddiweddar gan Matthew Oakley. Edrychodd yr adolygiad ar sancsiynau LCG lle roedd budd-daliadau hawlwydd LCG wedi cael eu lleihau am nad oeddent wedi cymryd rhan mewn cynllun dychwelyd i'r gwaith gorfodol megis y Rhaglen Waith. Cyhoeddwyd canlyniad yr adolygiad ym mis Gorffennaf a chyfeirir ato isod. Mae DWP hefyd wedi dechrau (yn ystod hydref 2013) gwerthuso'r system sancsiynau a gyflwynwyd ym mis Hydref 2012. Mae hyn yn cynnwys arolygon o brofiad hawlwydd budd-daliadau o'r system sancsiynau a dadansoddi data gweinyddol ar weithgarwch sy'n ymwneud â sancsiynau (DWP, 2013c). Byddwn yn parhau i fonitro unrhyw dystiolaeth newydd am y systemau sancsiynau diwygiedig.

9. Y rhesymau pam mae hawlwr yn cael sancsiynau

Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth

Os oes diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith hawlwr o'u cyfrifoldebau a chanlyniadau peidio â'u cyflawni a hefyd sut i addasu eu hymddygiad er mwyn osgoi sancsiwn, bydd hyn yn cyfyngu ar eu heffeithiolrwydd posibl. Fel y noda Griggs ac Evans (2010b), os nad yw hawlwr yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt a hefyd beth fydd yn digwydd os na fyddant yn bodloni'r disgwyliaid hyn, bydd sancsiwn yn cosbi diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn hytrach nag achos o beidio â chydymffurfio â rheolau'r budd-dal yn fwriadol. Ar ôl edrych ar dystiolaeth o'r DU a thystiolaeth ryngwladol, nododd yr astudiaeth mai prin oedd y dystiolaeth bod hawlwr yn dewis peidio â mynd i gyfarfodydd neu ymgysylltu â gwasanaethau neu raglenni yn fwriadol. Roedd yn fwy tebygol mai gwybodaeth wael ac ymddygiad anfwriadol megis anghofrwydd oedd y rhesymau a arweiniodd at sancsiwn.

Yn wir, mae adolygiad o system sancsiynau LCG yn awgrymu nad yw pob hawlwr LCG yn deall y system yn llawn ac, felly, sut i osgoi sancsiwn. Er enghraifft, er i waith ymchwil yr arolwg nodi bod 81 y cant o'r ymatebwyr yn credu eu bod yn deall y rheolau roedd yn rhaid iddynt eu dilyn wrth hawlio LCG yn dda neu'n eithaf da, nododd 18 y cant nad oeddent yn deall fawr ddim am y rheolau, os o gwbl. At hynny, roedd 76 y cant yn ymwybodol y câi eu budd-dal ei leihau neu ei atal pe na bai rhywun sy'n hawlio LCG yn derbyn amodau neu reolau penodol. Golyga hyn nad yw tua 24 y cant yn deall hynny. Gostyngodd nodweddion penodol (e.e. hawlwr o darddiad ethnig heb fod yn wyn neu hawlwr ag anawsterau llythrennedd) y lefel o ddealltwriaeth ymhellach.

O ran effaith ataliol sancsiynau, honnodd cyfran uchel o'r ymatebwyr hynny i'r arolwg a oedd yn cael LCG nad oedd unrhyw un wedi sôn wrthynt am y posibilrwydd o sancsiynau (32 y cant). Hefyd, dywedodd 23 y cant na allent fod wedi osgoi'r sancsiwn ac roedd cyfran debyg (21 y cant) yn ansicr sut y byddai hyn yn wedi bod yn bosibl. Nodwyd hefyd bod dryswch cyffredinol ymysg hawlwr ar ôl iddynt gael sancsiwn ynghylch, er enghraifft, y rheswm dros osod sancsiynau (SSAC, 2013) a pha fenthyciadau neu fudd-daliadau y gellid gwneud cais amdanynt (Peters a Joyce, 2006).

Yn unol â'r uchod, nododd astudiaeth ansoddol o 30 o rieni unigol a gynhaliwyd yn 2005, er eu bod yn ymwybodol, ar y cyfan, y gallent gael eu cosbi, nad oeddent yn gwybod fawr ddim am fanylion penodol megis pryd y câi sancsiwn ei osod (Whiting a Joyce, 2006). Mae SSAC (2006) yn nodi bod hyn yn awgrymu, ar adeg cynnal yr astudiaethau hyn, nad oedd y systemau ar gyfer hawlwr gweithredol ac anweithredol bob amser yn gweithio fel y bwriadwyd.

Mae astudiaeth arall o sancsiynau sy'n ymwneud â hawlwr anweithredol, yn yr achos hwn y rhai sy'n hawlio LCCh, yn cyd-fynd â rhai o'r canfyddiadau a drafodwyd uchod. Er enghraifft, mae canfyddiadau arolwg a gofnodwyd gan Barnes et al (2011) yn awgrymu, er bod llawer o hawlwr yn ymwybodol o sancsiynau, nad oedd gwybodaeth hawlwr am sut roeddent yn cael eu defnyddio bob amser yn gywir. Un enghraifft yw'r gred y câi taliad budd-dal ei atal pe na bai cwsmeriaid yn mynd i

gyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith, tra câi ei leihau, mewn gwirionedd, o dan y system a oedd ar waith ar y pryd.

Mae Vincent (1998) yn awgrymu bod y diffyg ymwybyddiaeth hwn yn aml i'w briodoli i gyfathrebu ac esboniadau annigonol gan gynghorwyr personol. Fodd bynnag, mae cyfweliadau ansoddol â staff canolfannau gwaith yn awgrymu, er bod staff wedi ceisio sicrhau bod y rheolau yn cael eu cyfleu'n llawn i hawlwyd, bod y cymhlethdodau a'r manylder a nodweddai'r system bryd hynny yn golygu ei bod yn anodd iawn gwneud hynny (Peters a Joyce, 2006).

Mae Oakley (2014) wedi adolygu sancsiynau budd-daliadau ar gyfer hawlwyd LCG sydd wedi cael sancsiwn o dan y system ddiwygiedig (h.y. ar ôl Hydref 2012) ar ôl iddynt gael eu hatgyfeirio i gynllun dychwelyd i'r gwaith gorfodol. Roedd hyn yn cynnwys asesiad o'r broses sancsiynau budd-daliadau o dan yr amgylchiadau hyn (sy'n cyfrif am un o bob tri o'r holl benderfyniadau i osod sancsiwn LCG yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2013) a pha mor dda roedd hawlwyd yn deall y system. Yn benodol, roedd yr asesiad hwn yn canolbwyntio ar ba mor glir oedd y wybodaeth a roddwyd i hawlwyd am ganlyniadau peidio â chydymffurfio, y rhesymau dros gael sancsiwn a'r prosesau o roi rheswm da, apelio yn erbyn penderfyniad a gwneud cais am daliadau caledi. Daw'r adolygiad i'r casgliad nad yw'r system bresennol, yn ei hanfod, yn ddiffygiol. Fodd bynnag, nodwyd meysydd lle y gellid gwella'r system. Er enghraifft, nododd yr Adolygiad nad oedd gan rai hawlwyd ddealltwriaeth fanwl o'r gofynion a osodwyd arnynt na'r prosesau a oedd yn ymwneud â sancsiynau. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos rhai grwpiau a hawlwyd mwy agored i niwed a oedd yn wynebu rhwystrau penodol i waith.

Mae meysydd penodol i'w gwella a nodwyd yn ymwneud â chynnwys ac arddull llythyrau DWP at hawlwyd y cafwyd eu bod yn gymhleth ac yn anodd eu deall ar y cyfan ac, mewn achosion eraill, eu bod yn cael eu gadael heb eu hagor neu heb eu darllen sy'n awgrymu bod angen cyfathrebu'n gliriach ac ymgysylltu'n well â hawlwyd gan ddefnyddio eu dewis ddull cyfathrebu. Hefyd, datgelodd yr Adolygiad bryder mwy cyffredinol bod dealltwriaeth wael ymhlith rhai hawlwyd o'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos y Rhaglen Waith. O ran y broses sancsiynau, nodwyd problemau a oedd yn ymwneud â'r modd y câi sancsiynau eu gosod; ni all darparwyr cynlluniau gorfodol wneud penderfyniadau cyfreithiol ynglŷn â rheswm da ac, felly, mae'n rhaid iddynt gyfeirio pob hawlwyd sy'n methu â mynd i gyfweliad gorfodol at wneuthurwr penderfyniadau, hyd yn oed os bydd yr hawlwyd wedi rhoi tystiolaeth iddo a allai gael ei hystyried yn 'rheswm da' gan y Ganolfan Byd Gwaith. At hynny, nid oedd rhai hawlwyd yn deall y broses 'rheswm da'. Nodwyd problemau gyda'r broses rhannu gwybodaeth hefyd. Yn olaf, mynegwyd pryderon mai'r tro cyntaf y deuai rhai hawlwyd i wybod eu bod wedi cael sancsiwn oedd pan fyddent yn ceisio cael eu budd-dal allan o beiriant arian ac yn methu â gwneud hynny.

Mae'r problemau uchod a nodwyd yn yr Adolygiad yn tansellio tegwch ac effeithiolrwydd y system sancsiynau. Mewn ymgais i fynd i'r afael â'r problemau hyn, mae'r Adolygiad yn gwneud 17 o argymhellion, a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU. Maent yn ymwneud â'r meysydd cyffredinol canlynol: cyfathrebu - gwella prosesau cyfathrebu fel bod hawlwyd yn gwybod eu bod wedi cael sancsiwn neu'n deall pa broses y mae angen iddynt ei dilyn ar ôl iddynt gael eu hatgyfeirio ar gyfer sancsiwn;

cyfrifoldeb Canolfannau Gwaith/Darparwyr - sicrhau bod hawlwyd yn glir ynghylch â phwy y dylent fod yn ymgysylltu a pha weithgaredd y dylent fod yn ei gyflawni pan fyddant yn cael LCG ac yn cymryd rhan yn y rhaglen waith; a, mesurau dioglewch - y dylid adolygu'r broses rheswm da a'r broses taliadau caledi er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y rhai sydd fwyaf agored i niwed ac yn cyflawni'r canlyniadau cywir.

O ran y system newydd o dan CC, mae DWP (2013b) wedi cyhoeddi canfyddiadau cam cyntaf ei gwerthusiad hydredol o gynllun braenaru CC, a oedd yn cynnwys arolwg mawr dros y ffôn o hawlwyd a oedd yn gwneud ceisiadau newydd i CC yng Ngogledd-orllewin Lloegr ac a gynhaliwyd rhwng mis Awst 2013 a mis Hydref 2103. Er mwyn cael swm llawn CC mae angen i hawlwyd wneud pethau penodol neu efallai y byddant yn cael sancsiwn. Dengys canfyddiadau'r arolwg y gallai'r mwyafrif helaeth o hawlwyd CC nodi amodau (e.e. peidio â chymryd pob cam rhesymol i chwilio am waith) a all arwain at CC yn cael ei leihau neu ei atal.

Rôl rhwystrau ymarferol a phersonol

Mae tri rhwystr allweddol i gydymffurfio â'r system sancsiynau hefyd wedi'i nodi yn y llenyddiaeth, sef: problemau sy'n ymwneud â chael gafael ar gludiant; dim offer cyfathrebu; (h.y. ffôn a/neu'r rhyngwyd); gofal plant (Griggs ac Evans, 2010a).

Er bod yr astudiaeth a gynhaliwyd yn y DU gan Peters a Joyce (2006) yn nodi'r gyfran uwch o hawlwyd sydd wedi cael sancsiwn sy'n nodi bod ganddynt broblemau sy'n gysylltiedig â chludiant, mae Griggs ac Evans (2010a) yn nodi bod y rhwystrau ymarferol hyn yn llai amlwg mewn astudiaethau y tu allan i'r UD. Mae problemau a nodwyd yn amlach yn ymwneud â heriau personol a theuluol megis digartrefedd, ffyrdd di-drefn o fyw, problemau iechyd ac anabledd (yr hawlwyd ei hun a rhai dibynnydd), camddefnyddio sylweddau a thrais domestig. Nodwyd bod hawlwyd â rhwystrau lluosog o'r math hwn yn arbennig o agored i sancsiynau (Eardely et al., 2005; Polit et al., 2001).

10. Effaith sancsiynau ac ymatebion iddynt

Mae astudiaethau empiraidd wedi canolbwyntio bron yn llwyr ar effeithiau sancsiynau a osodwyd ar ôl i gais am fudd-daliadau gael ei gyflwyno ac mae nifer fach hefyd wedi edrych ar effaith rhybuddion uniongyrchol. Nid yw'r rhan fwyaf wedi ystyried yr effaith ar nifer yr unigolion sy'n hawlio budd-daliadau nac effaith bodolaeth sancsiynau ar ymddygiad y boblogaeth hawlwr yn gyffredinol (Griggs ac Evans, 2010a).

Nododd y drafodaeth uchod fod nifer y sancsiynau yn amrywio ar draws y boblogaeth hawlwr. Yn yr un modd, mae'r bygythiad y caiff sancsiwn ei osod yn effeithio ar y rhai sy'n cael budd-daliadau mewn ffyrdd gwahanol (Eardley et al, 2005). Ar ôl adolygu'r llenyddiaeth sydd ar gael yn y maes, mae Griggs ac Evans (2010a) yn nodi bod profiadau amrywiol hawlwr a'r ffaith bod rhai grwpiau o hawlwr (e.e. y rhai â dibynyddion a/neu y rhai nad oes ganddynt unrhyw ffynhonnell arall o incwm) yn fwy tebygol o 'ddioddef' o ganlyniad i sancsiynau yn cael eu hamlygu mewn sawl astudiaeth (e.e. Dorsett, 2008; Gwasanaeth Cyflogaeth, 1999, 2000; Molloy a Ritchie, 2000; O'Connor et al, 1999; a Vincent, 1998).

Ymddygiad o ran chwilio am waith

Ymddengys fod canfyddiadau ymchwil yn gymysg, am yr ystyrir bod sancsiynau yn cael effaith ddeuol, o ran annog hawlwr i ddod o hyd i waith a'u cymell i beidio â gwneud hynny. Er enghraifft, dengys canfyddiadau arolygon o hawlwr LCG fod ychydig dros ddau o bob pum ymatebwr yn fwy tebygol o chwilio am waith o ganlyniad i sancsiynau budd-daliadau (Peters a Joyce, 2006). At hynny, nododd ymchwil ansoddol o'r un astudiaeth, yn achos rhai hawlwr, fod y bygythiad o sancsiwn a chael sancsiwn yn effeithio ar farn unigolion ynglŷn â'u rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol (e.e. mwy o awydd i ddod o hyd i waith ynghynt er mwyn peidio â bod yn ddibynnol ar fudd-daliadau a wynebu'r risg o gael sancsiwn). Fodd bynnag, amharwyd ar gymhelliant hawlwr eraill am fod sancsiynau wedi creu sawl rhwystr i ddod o hyd i waith gan gynnwys ofni gwneud cais am swyddi anaddas/nad oedd eu heisiau rhag ofn y caent eu cosbi pe baent yn gadael a fyddai'n golygu bod ganddynt lai o arian i'w wario ar weithgareddau chwilio am waith, yn arbennig teithio i gyfweliadau am swyddi. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymchwil CAB (2014a), sy'n awgrymu bod gallu hawlwr i chwilio am waith yn cael ei danseilio gryn dipyn os caiff ei incwm ei leihau o ganlyniad i sancsiynau budd-daliadau. Mewn rhai achosion, mae hawlwr yn treulio llawer o amser yn ceisio dod o hyd i ffyrdd eraill o dalu am hanfodion megis bwyd, sy'n golygu nad oes ganddynt fawr ddim amser i chwilio am waith. Yn achos hawlwr eraill, mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod y profiad o gael sancsiwn yn eu gwneud yn fwy penderfynol i hawlio arian a oedd yn ddyledus iddynt, yn eu barn hwy (Peters a Joyce, 2006).

O dan y system CC newydd, canfu'r arolwg cyntaf o hawlwr CC a gynhaliwyd gan DWP (2013b) i 76 y cant o ymatebwyr ddweud y byddai'n ei gwneud yn fwy tebygol y byddent yn chwilio am waith neu gymryd camau i baratoi ar gyfer gwaith (dywedodd 23 y cant nad oedd yn gwneud unrhyw wahaniaeth).

Parhad diweithdra, cyfraddau dechrau yn y gwaith ac enillion

Mewn adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar effaith sancsiynau, mae Griggs ac Evans (2010a) yn canfod gostyngiad cyson, mawr a sylweddol mewn parhad diweithdra a/neu gynnydd mewn cyfraddau dechrau yn y gwaith yn y byrdymor. Un enghraifft yw astudiaeth gan Müller a Steiner (2008) sy'n canfod tystiolaeth argyhoeddiadol y gall gosod sancsiwn gynyddu cyflogaeth reolaidd yn enwedig pan fydd yn digwydd yn gynnar yn ystod cyfnod hawlio budd-daliadau. Fodd bynnag, cymerodd rhai hawl wyr ran mewn gwaith anffurfiol megis canu ar y stryd neu waith asiantaeth, er mwyn cael incwm yn ystod cyfnod y sancsiwn (O'Connor et al, 1999).

Mae'r astudiaethau hynny (e.e. an Ours, 2004; Lalive, 2002) sy'n ystyried effaith y bygythiad o sancsiwn a gosod y sancsiwn ei hun (ochr yn ochr â system fudd-daliadau a gaiff ei monitro'n fanwl) yn nodi gostyngiad yng nghyfanswm yr amser a dreulir ar fudd-daliadau ac effeithiau cadarnhaol ar ddechrau swydd.

Fodd bynnag, mae'r unig astudiaeth sy'n ystyried effeithiau yn y tymor hwy (Arni et al, 2009) yn gweld canlyniadau llai ffafriol a hynny ar ffurf effeithiau cyson negyddol ddwy flynedd ar ôl peidio â bod yn ddiwaith ar enillion (e.e. os yw hawl wyr yn teimlo eu bod wedi cael eu gorfodi i dderbyn swydd sy'n talu cyflogau is, a bod y rhai sy'n derbyn swyddi o'r fath yn fwy tebygol o'u gadael a mynd yn ddi-waith unwaith eto) ac ar sefydlogrwydd mewn swydd (h.y. mae'r cyfnod mewn cyflogaeth yn llai am fod hawl wyr yn teimlo eu bod wedi cael eu gorfodi i dderbyn swyddi rhan amser/dros dro). Er gwaethaf newidiadau negyddol mewn enillion a/neu gadw swydd, mae Griggs ac Evans (2010a) yn nodi y gellir ystyried bod effaith gyffredinol sancsiynau yn effeithlon os bydd cyfnod llai o ddiweithdra yn arwain at gynnydd net cyffredinol mewn incwm o gyfnodau hirach i gael enillion. Fodd bynnag, ni chanfu'r astudiaeth gan Arni et al hyn. Yn hytrach, roedd effaith net sancsiynau budd-daliadau yn negyddol dros gyfnod o ddwy flynedd ar ôl peidio â bod yn ddi-waith. Fel y noda Griggs ac Evans (2010a) "short-term gains are sometimes achieved at the expense of long-term pain for claimants".

Caledi ariannol

Dengys rhywfaint o dystiolaeth fod hawl wyr sy'n cael sancsiynau yn aml yn profi caledi a dyled. Noda Peters a Joyce (2006) mai hwn yw un o brif effeithiau sancsiynau. Dangosodd eu harolwg o hawl wyr LCG i 68 y cant o gwsmeriaid a oedd wedi cael sancsiwn nodi eu bod wedi wynebu caledi ariannol o ganlyniad i'r penderfyniad i ostwng neu atal eu budd-dal. Yn aml, arweiniodd hyn at anawsterau i dalu treuliau'r cartref yn enwedig costau tai a biliau cyfleustodau. Er mwyn lliniaru caledi, mae rhai hawl wyr wedi cwtogi ar eu gwariant ar weithgareddau cymdeithasol a hyd yn oed ar hanfodion y cartref megis bwyd, wedi gwerthu eiddo, wedi cael benthyg arian ac wedi mynd i ddyled (O'Connor et al, 2009; Peters a Joyce, 2006; Dorsett, 2008; Goodwin, 2008). Er enghraifft, yn 2013, rhoddodd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth 100,000 o dalebau ar gyfer banciau bwyd ac roedd angen 16 y cant o'r rhain oherwydd sancsiynau budd-daliadau. O blith eu cleientiaid a oedd yn ceisio cymorth mewn perthynas â sancsiynau LCG, roedd gan 1 o bob 6 broblem o ran dyled ac roedd gan 1 o bob 10 broblemau o ran ôl-ddyledion rhent neu'r bygythiad/realiti o fod yn ddigartref (Cyngor ar Bopeth, 2014b). Gall hawl wyr eraill droi at droseddu (gweler ar y tudalen nesaf).

Mae difrifoldeb yr effaith yn dibynnu ar nifer o ffactorau megis a yw'r hawliwr wedi cael gwybodaeth amserol am eu hawl i arian y gronfa galedi, a oeddent yn byw gyda'u rhieni, a oedd ganddynt bartner a phlant neu a oeddent yn gallu chwilio am waith yn union ar ôl y sancsiwn (Saunders et al., 2001). At hynny, canfu Crisp a Fletcher (2008) sydd wedi ymchwilio i effeithiolrwydd rhaglenni 'workfare' yn rhyngwladol fod y rhai sy'n wynebu sawl rhwystr i weithio yn wynebu caledi mawr oherwydd y sancsiynau canlyniadol. Canfu'r gwerthusiad o Lwybrau at Waith (Dorsett, 2008) effeithiau negyddol tebyg hefyd gyda rhai hawllyr, yn enwedig pobl sy'n fwy agored i niwed, yn dweud eu bod mewn caledi o ganlyniad uniongyrchol i sancsiynau. Arweiniodd hyn yn ei dro at fwy o fenthyca ac, mewn rhai achosion, gwrthdaro teuluol. Awgryma tystiolaeth (e.e. Peters a Joyce, 2006) y caiff effaith sancsiynau ei lliniaru i ryw raddau gan gymorth anffurfiol gan deulu a ffrindiau. Fodd bynnag, golyga hyn fod effaith sancsiwn yn ehangach ei chwmpas, gan effeithio ar y rhai sy'n rhoi cymorth i'r hawliwr sydd wedi cael sancsiwn.

Gall hawllyr nad oes fawr ddim adnoddau eraill ar gael iddynt, os o gwbl, hawlio taliadau caledi yn ystod cyfnod sancsiwn. Mae angen i hawllyr ddangos na allant brynu eitemau hanfodol, gan gynnwys bwyd, dillad, gwres a llety, ac felly maent mewn perygl o ddiodef yn fawr neu fod mewn angen mawr (DWP, 2014b). Mae tua chwarter yr holl hawllyr sydd wedi cael sancsiwn yn cael cymorth ffurfiol drwy daliadau caledi (Peters a Joyce, 2006). Priodolwyd y niferoedd isel sydd wedi gwneud cais am daliadau caledi i ddiffyg ymwybyddiaeth o'r cymorth hwn (Dorsett, 2008). Er enghraifft, canfu astudiaeth gan DWP mai dim ond 23 y cant o hawllyr a nododd fod eu budd-dal wedi cael ei atal neu ei leihau a nododd eu bod wedi cael gwybod am daliadau caledi. Ystyrid bod y broses o wneud cais yn brofiad heriol hefyd (Bloch et al, 2013).

Efallai y bydd effeithiau canlyniadol ar y galw am gymorth o gronfeydd Llywodraeth Cymru megis y Gronfa Cymorth Dewisol. Diben y gronfa hon yw cynnig taliadau neu gymorth mewn da i roi cymorth brys i bobl lle mae angen a nodwyd i ddiogelu iechyd a lles.

Troseddu

Prin yw'r gwaith ymchwil yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae Machin a Marie (2006) wedi ystyried effeithiau canlyniadol ehangach sancsiynau ar eiddo a throseddau treisgar. Canfu'r astudiaeth fod cyfraddau troseddu sy'n ymwneud ag eiddo mewn ardaloedd lle roedd mwy o unigolion a oedd wedi cael sancsiwn yn cynyddu. Canfuwyd hefyd fod cyfraddau troseddu uwch mewn ardaloedd lle roedd mwy o bobl wedi peidio â hawlio budd-daliadau diweithdra ond nad oeddent mewn cyflogaeth (h.y. gadael y gofrestr ond heb fod mewn addysg/hyfforddiant na chael budd-daliadau eraill). Mesurwyd yr effeithiau hyn gan yr awduron cyn ac ar ôl i LCG gael ei gyflwyno yn 1996/7 a gwelwyd eu bod yn parhau am ddwy flynedd. Felly, efallai y caiff arbedion i'r gyllideb budd-daliadau eu gwrthbwysu gan gost gynyddol troseddu. Er enghraifft, mae Machin a Marie yn amcangyfrif fod 22 i 28 y cant o'r gostyngiad mewn gwariant net ar fudd-daliadau yn cael ei golli drwy wariant uwch ar droseddu. Fodd bynnag, mae Griggs ac Evans (2010a) yn nodi mai amrwd oedd y dull o gyfrifo cost a budd a ddefnyddiwyd i gyfrifo hyn.

Mae astudiaethau eraill hefyd yn canfod bod cyfran fach o ymatebwyr yn teimlo bod y caledi a achoswyd gan sancsiynau wedi arwain at sefyllfa lle mai troseddu (e.e. dwyn bwyd neu nwyddau eraill) oedd yr unig ymateb (Eardley et al, 2005; Y Gwasanaeth Cyflogi, 1999; O'Connor et al, 1999; a, Vincent, 1998).

Canfu gwaith ymchwil yn yr UD hefyd fod defnyddwyr cyffuriau a gollodd eu hawl i gael budd-daliadau drwy fethu â chydymffurfio â'r system newydd yn fwy tebygol o ddychwelyd at droseddu a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau, yn y byrdymor o leiaf, er mwyn ariannu eu defnydd o gyffuriau (Montoya ac Atkinson, 2002; Swartz et al, 2004).

Lles emosiynol

Mae'r llenyddiaeth ansoddol yn tynnu sylw at yr effeithiau posibl y gall sancsiynau eu cael ar les emosiynol hawliwr gan gynnwys teimladau o iselder, rhwystredigaeth (e.e. pan na chawsant esboniad trylwyr o'r penderfyniad), dicter (e.e. pan deimlid bod y penderfyniad yn anghyfiawn neu nad oedd y drefn wedi cael ei hesbonio'n ddigonol) a chywilydd, yn enwedig ymhlith y rhai a oedd yn cael problemau emosiynol cyn i'r sancsiwn gael ei roi (Peters a Joyce, 2006). Canfu Dorsett (2008) dystiolaeth a oedd yn awgrymu mai un o ganlyniadau sancsiwn i rai hawlwr oedd dirywiad yn eu hiechyd meddwl ac ymdeimlad o erledigaeth. Nodwyd hefyd fod caledi materol o ganlyniad i sancsiynau yn achosi neu'n gwaethygu straen a gorbryder ymhlith rhieni unigol. Mae rhai rhieni unigol wedi dweud eu bod yn cael anawsterau emosiynol a oedd yn ymwneud â theimlo na allent ddarparu'r hyn y dylai rhiant ei ddarparu dros eu plant, yn eu barn hwy (Goodwin, 2008).

Lles corfforol

Awgryma gwaith ymchwil ansoddol fod effeithiau ar les corfforol yn ymwneud â'r effeithiau emosiynol uchod. Er enghraifft, gallai'r straen a'r gorbryder a achosir gan sancsiwn arwain at effeithiau corfforol negyddol megis gwaethygu cyflwr iechyd a oedd yn bodoli eisoes a hefyd greu problemau newydd megis problemau cysgu a cholli pwysau (Peters and Joyce, 2006).

Effeithiau ar deulu a ffrindiau

Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod sancsiynau nid yn unig yn effeithio ar y cwsmer sy'n cael sancsiwn ond hefyd ar deulu a ffrindiau, yn enwedig y rhai sy'n rhoi cymorth ariannol ac emosiynol. Mae effeithiau o'r fath yn cynnwys rhoi arian i hawlwr am gostau byw, gwneud taliadau ar ddyled ar eu rhan a rhoi mwy o straen ar gydberthnasau teuluol a chyfeillgarwch oherwydd mwy o ddadlau yn sgil straen ariannol, bod yn ddig ynglŷn â'r sancsiwn a roddwyd yn enwedig os credir mai hwy oedd ar fai, a theimladau o euogrwydd am roi eu teulu a'u ffrindiau yn y fath sefyllfa. (Peters a Joyce, 2006).

Nodwyd bod sancsiynau hefyd yn cael effaith ganlyniadol ar blant y rhai sydd wedi cael sancsiwn. Yn gyntaf, o ganlyniad i ddiffyg arian i wario ar foethau a gweithgareddau eraill megis teithiau ysgol ac yn ail, credid bod plant yn synhwyro gorbryder emosiynol eu rhieni a achoswyd gan y sancsiwn (Peters a Joyce, 2006).

Mae'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth (2014b) yn nodi bod gan un o bob pedwar cleient sy'n ceisio cyngor mewn perthynas â sancsiynau LCG blant dibynnol.

Cyfeiriadau

Adam, S a Phillips, D. (2013) An ex-ante analysis of the effects of the UK Government's welfare reforms on labour supply in Wales.

Arni, P., Lalive, R. a van Ours, J. (2009) How Effective are Unemployment Benefit Sanctions? Looking Beyond Unemployment Exit. Papur Trafod IZA Rhif 4509, Bonn: The Institute for the Study of Labor (IZA);

Barnes, H., Sissons, P. a Stevens, H. (2011) Employment and Support Allowance: Findings from a follow-up survey with customers. Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 745.

Bastagli, F. (2008) 'Conditionality in public policy targeted to the poor: promoting resilience?', *Social Policy and Society*, Cyf. 8, Rhif 1, tud 0.127 – 40
Besharov, D.J. a Germanis, P. (2004) Full-Engagement Welfare in New York City: Lessons for TANF's Participation Requirements. Washington, DC: American Enterprise Institute for Public Policy Research.

Bloch, A., Coleman, N., Coulter, A., Day, N., Hingley, S., Howat, N. a Romanou, E. (2013) The Jobcentre Plus Offer: Final Evaluation Report. Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 852.

Boone, J. Fredriksson, P., Holmlund, B. a van Ours J. (2007) 'Optimal unemployment insurance with monitoring and sanctions', *Economic Journal*, Cyf. 117, Rhif. 518, tud.399-421.

Canolfan Cyngor ar Bopeth (2014a) One day at a time - Examining the cumulative impact of welfare reform on benefit claimants in Wales.

Canolfan Cyngor ar Bopeth (2014b) Emerging trend: JSA sanctions. Barometer.

Crisp, R. a Fletcher, D. (2008) A Comparative Review of Workfare Programmes in the United States, Canada and Australia. Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 533.

Dorsett, R. (2008) *Pathways to Work for New and Repeat Incapacity Benefits Claimants: Evaluation Synthesis Report*. Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 525.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011) Conditionality, sanctions and hardship. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012a) Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyngori ar Nawdd Cymdeithasol. Rheoliadau Credyd Cynhwysol 2012. Ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Cyngori ar Nawdd Cymdeithasol ddydd Mercher 13 Mehefin 2012.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012b) Rheoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (Sancsiynau) (Diwygio) 2012. Dadansoddiad o gydraddoldeb.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013a) Jobseeker's Allowance and Employment and Support Allowance Sanctions – decisions made to June 2013, GB.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013b) Universal Credit pathfinder evaluation: interim results from the Universal Credit claimant survey, wave 1.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013c) Cais Rhyddid Gwybodaeth 2484/2013

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2014a) Jobseeker's Allowance and Employment and Support Allowance Sanctions – decisions made to December 2013.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2014c) Cais Rhyddid Gwybodaeth 3124/2013

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2014c) Introducing the Jobseeker's Allowance Claimant Commitment (<https://www.gov.uk/government/policies/simplifying-the-welfare-system-and-making-sure-work-pays/supporting-pages/introducing-the-jobseekers-allowance-claimant-commitment>)

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2014d) Benefit and pension rates: April 2014.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2014e) Ymateb y Llywodraeth i'r adolygiad Annibynnol o weithrediad sancsiynau Lwfans Ceisio Gwaith a ddilyswyd gan Ddeddf Ceiswyr Gwaith 2013.

Eardley, T., Brown, J., Rawsthorne, M., Norris, K. ac Emrys, L. (2005) *The Impact of Breaching Income Support Customers*. Sydney: Canolfan Ymchwil Polisi Cymdeithasol.

Y Gwasanaeth Cyflogi (1999) *New Deal for Long Term Unemployed: Qualitative Interviews – Part 1*.

Y Gwasanaeth Cyflogi (2000) *New Deal for Young People Follow Through*.

Finn, D. and Gloster, R. (2010), *Lone Parent Obligations: A review of recent evidence on the work-related requirements within the benefit systems of different countries*, Department for Work and Pensions Research Report No 632.

Goodwin, V. (2008) *The Effects of Benefit Sanctions on Lone Parents' Employment Decisions and Moves into Employment*. Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 511.

Griggs (2010) *Welfare sanctions may work in the short term, but at what cost?* Datganiad JRF i'r wasg 02/12/10.

Griggs, J, ac Evans, M (2010a) *Sanctions within conditional benefit systems. A review of evidence*.

Griggs, J. ac Evans, M. (2010b) *A Review of Benefit Sanctions*. Caerefrog, Sefydliad Joseph Rowntree.

Lalive, R., VAN Ours, J.C. a Zweimüller, J. (2002) The Effect of Benefit Sanctions on the Duration of Unemployment. Papur Trafod IZA Rhif 469, Bonn: The Institute for the Study of Labor (IZA).

Lane, P., Casebourne, J., Lanceley, L. a Davies, M. (2011) Lone Parent Obligations: work, childcare and the Jobseeker's Allowance regime. Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 782.

Machin, S, a Marie, O (2006) 'Crime and Benefit Sanctions' in *Portuguese Economic Journal* Cyf. 5(2), tudalennau 149–165 (Awst 2006).

Molloy, D. a Ritchie, J. (2000) *New Deal for Long-term Unemployed People: Findings from a Qualitative Study among Participants*, a baratowyd gan y Gwasanaeth Cyflogi.

Montoya, I, ac Atkinson, J (2002) 'A synthesis of welfare reform policy and its impact on substance users' in *Journal of Drug and Alcohol Abuse*, 28, tudalennu 133–46.

Müller, K.-U. and V. Steiner (2008), Imposed Benefit Sanctions and the Unemployment-to-Employment Transition – The German Experience.

Oakley, M. (2013) Independent review of Jobseeker's Allowance sanctions. Call for information.

Oakley, M. (2014) Independent review of the operation of Jobseeker's Allowance sanctions validated by the Jobseekers Act 2013.

O'Connor, W., Bruce, S. a Ritchie, J. (1999) *New Deal for Young People: Pathfinder Follow-Through: Findings from a Qualitative Study amongst individuals*, a baratowyd gan y Gwasanaeth Cyflogi.

Peters, M, Joyce, L (2006) *A review of the sanctions regime: Summary research findings*. Adroddiad Ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 313.

Polit, D., London, A. a Martinez, J. (2001) *The Health of Poor Urban Women: Findings from the Project on Devolution and Urban Change*. Manpower Demonstration Research Corporation.

Saunders, T., Stone, V. a Candy, S. (2001) The impact of the 26 week sanctioning regime, Adroddiad Ymchwil ES Rhif ESR100.

Y Pwyllgor Cyngori ar Nawdd Cymdeithasol (2006) Sanctions in the benefit system: Evidence review of JSA, IS and IB sanctions.

Y Pwyllgor Cyngori ar Nawdd Cymdeithasol. (2013). *Communications in the benefits system: A study by the Social Security Advisory Committee*, Papur Achlysurol Rhif 11.

Svarer, M. (2007) *The Effect of Sanctions on the Job Findings Rate: Evidence from Denmark*. Papur Trafod IZA Rhif 3015. Bonn: The Institute for the Study of Labor (IZA).

Swartz, JA, Baumohl, J, a Lurigio, AR (2004) 'Termination of Supplemental Security Income Benefits for Drug Addiction and Alcoholism: Results of a Longitudinal Study of the Effects on Former Beneficiaries' yn *Social Service Review*, 78, 96–124.

Van Ours, J. C. (2004) *Experiments on Unemployment Benefits Sanctions and Job Search Behaviour*. IZA Discussion Paper, No. 1000. Bonn: The Institute for the Study of Labor (IZA).

Vincent, J. (1998) *Qualitative Research on Disallowed and Sanctioned Claimants Phase Two: After Jobseeker's Allowance*. Adroddiad Ymchwil yr Adran Addysg a Chyflogaeth Rhif 86.

Webster, D. (2013) *The DWP's updated statistics on JSA sanctions: what do they show? Tystiolaeth ategol bellach a gyflwynwyd i Bwyllgor Gwaith a Phensiynau Tŷ'r Cyffredin ar gyfer ei Ymchwiliad i Rôl y Ganolfan Byd Gwaith yn y system les ddiwygiedig*.

Whiting, H. a Joyce, L. (2006) *Sanctions: Qualitative summary report on Lone Parent customers*, Papur Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif 27.

Atodiad 1 – Enghraifft astudiaeth achos o LCCh (yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2012b)

Mae Jane yn hawliwr sengl sy'n methu ag ymgymryd â gweithgarwch yn seiliedig ar waith heb reswm da ac mae'r swyddog penderfyniadau yn penderfynu y dylid rhoi sancsiwn iddi. Dyma ei methiant cyntaf ac felly y cyfnod penodol perthnasol yw wythnos. Mae Jane yn cydymffurfio â'r gofyniad yn ystod wythnos 5 o'r sancsiwn. Cyfrifir ei LCCh o'r swm personol a'r WRAC fel y nodir isod. Mae pob cyfradd yn cyfeirio at gyfraddau 2012/13.

Lwfans Personol LCCh sy'n daladwy	71.00
WRAC	<u>28.15</u>
Cyfanswm wythnosol	99.15

Mae'r cymariaethau isod yn dangos sut y byddai'r sancsiwn yn cael ei roi cyn ac ar ôl y newidiadau a wnaed ar 3 Rhagfyr 2012.

Nifer yr wythnosau sancsiwn 1 – 4	Y system cyn 3 Rhagfyr 2012	Y system ar ôl 3 Rhagfyr 2012
Lwfans Personol	71.00	00.00
WRAC	14.07 (50 y cant)	28.15
Cyfanswm wythnosol	85.08	28.15 (Bydd yr hawliwr yn gallu gwneud cais am daliadau caledi. Unwaith bod yr hawliwr yn cydymffurfio, caiff y cyfnod penodol perthnasol ei gymhwyso).

Swm y sancsiwn wythnos 5	Y system cyn 3 Rhagfyr 2012	Y system ar ôl 3 Rhagfyr 2012
Lwfans Personol	71.00	00.00
WRAC	00.00	28.15
Cyfanswm wythnosol	71.00	28.15 (Cyfnod penodol o wythnos. Bydd yr hawliwr yn gallu gwneud cais am daliadau caledi.

Atodiad 2 – Cyfraddau budd-dal LCCh a LCG 2014/15 (yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2014d)

LCCh

Person sengl

O dan 25 – cam asesu	£57.35
25 neu drosodd	£72.40
Unrhyw oedran – prif gam	£72.40

Rhiant unigol

O dan 18 – cam asesu	£57.35
18 neu drosodd	£72.40
Unrhyw oedran – prif gam	£72.40

Cwpl LCCh (yn seiliedig ar incwm)¹¹

Y ddau o dan 18	£57.35
Un yn 18 neu drosodd, un o dan 18 - y gyfradd uwch ⁸	£113.70
Y ddau yn 18 neu drosodd	£113.70
Y ddau o dan 18 - y gyfradd uwch ⁸	£86.65
Hawlydd 18-24 oed, partner o dan 18	£57.35
Hawlydd 25 oed neu drosodd, partner o dan 18	£72.40
Hawlydd ar y prif gam, partner o dan 18	£72.40
Hawlydd ar y prif gam, partner o dan 18 - y gyfradd uwch ¹²	£113.70

¹¹ Ni restrir LCCh sy'n seiliedig ar gyfraniadau gan mai budd-dal person sengl ydyw.

¹² Gellir talu cyfradd uwch lle mae'r naill un neu'r llall o'r cwpl yn gyfrifol am blentyn neu, pe na baent yn gwpl, byddai gan y naill a'r llall hawl i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn ei rinwedd/rhinwedd ei hun.

Premiymau (LCCh yn seiliedig ar incwm)¹³

Pensiwn pensiynwr

Sengl, cyfnod asesu	£75.95
Sengl, â hawl i'r elfen gweithgaredd cysylltiedig â gwaith	£47.20
Sengl, â hawl i'r elfen cymorth	£40.20
Cwpl, cyfnod asesu	£112.80
Cwpl, â hawl i'r elfen gweithgaredd cysylltiedig â gwaith	£84.05
Cwpl, â hawl i'r elfen cymorth	£77.05

Premiwm Anabledd Difrifol

Sengl	£61.10
Cwpl, un yn gymwys	£61.10
Cwpl, y ddau yn gymwys	£122.20

Premiwm gofalwr	£34.20
------------------------	---------------

Premiwm Anabledd Uwch

Sengl	£15.55
Cwpl	£22.35

Elfennau

Elfen Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith	£28.75
Elfen cymorth	£35.75

¹³ Ni ddyfernir premiymau mewn LCCh yn seiliedig ar gyfraniadau.

LCG

LCG yn seiliedig ar gyfraniadau

Person o dan 25	£57.35
Person 25 neu drosodd	£72.40

LCG yn seiliedig ar incwm

Lwfansau personol

Person sengl

16-24 oed	£57.35
25 oed neu drosodd	£72.40

Cwpl

Y ddau'n 16 neu'n 17 oed	£57.35
Y ddau'n 16 neu'n 17 oed, yn daladwy o dan amgylchiadau penodol	£86.65
Y naill yn 16 neu'n 17 oed, a'r llall yn 18 i 24 oed	£57.35
Y naill yn 16 neu'n 17 oed, a'r llall yn 25 oed neu drosodd	£72.40
Y ddau yn 18 oed neu drosodd	£113.70

Rhieni unigol

O dan 18 oed	£57.35
18 oed neu drosodd	£72.40
Plant dibynnol	£66.33

Premiymau

Teulu	£17.45
Plentyn anabl	£59.50
Gofalwr	£34.20

Premiwm Anabledd Difrifol

Sengl	£61.10
Cwpl (lle mae un yn gymwys)	£61.10
Cwpl (lle mae'r ddau yn gymwys)	£122.20

Premiwm pensïynwr

Person sengl	£75.95
Cwpl	£112.80

Premiwm anabledd

Person sengl	£31.85
Cwpl	£45.40

Premiwm Anabledd Uwch

Person sengl	£15.55
Cwpl	£22.35
Plentyn	£24.08

Costau tai - didyniadau i'r rhai nad ydynt yn ddibynyddion

Mae'r symiau yr un peth â symiau Cymhorthdal Incwm

Budd-dal i bobl sydd mewn gwaith sydd ar streic – gostyngiad mewn budd-dal	£40.00
---	---------------